# Y Ffynnon

Papur Bro Eifionydd

Rhif 487 • **Mai 2020** • Am ddim ar y we

Bandiau Bach 03



Yr hogyn o Fynytho 22



Lle mae hi rwan? 12



Llygaid Sgwâr 24



# Pencampwr Pencae

ROEDD y gymeradwyaeth wythnosol er mwyn diolch i aelodau'r Gwasanaeth Iechyd yn hynod o dwymgalon ym Mhencaenewydd am wyth o'r gloch nos Iau, 7 Mai. Yn ogystal â dangos eu cefnogaeth i'r gweithwyr iechyd roedd pobl y pentref hefyd yn hynod o falch o gael cymeradwyo Finlay Calderwood, Glanerch wrth iddo orffen her go fawr yr oedd wedi ei gosod iddo'i hun ddechrau'r mis.

Ymateb Fin i gaethiwed y coronafeirws oedd penderfynu mynd ati i godi arian at y Gwasanaeth Iechyd trwy redeg marathon bob dydd am saith niwrnod. Er bod gan Fin, sydd yn 24 oed, radd BSc mewn Gwyddor Chwaraeon, redodd o erioed farathon yn ei fywyd – na hanner marathon tae hi'n dod i hynny! Ond roedd yn benderfynol o wneud rhywbeth a chan mai'r traddodiad ym Mhencae wrth fynd am dro ydi mynd 'rownd lôn dopiog' dyma benderfynu gwneud hynny bymtheg o weithiau bob dydd am wythnos!

Cychwyn o'i gartref Glanerch, i fyny i Bencaenewydd, ar draws i Dŷ Newydd, heibio iard Williams a Williams, ac i lawr yn ôl am Glanerch. Cafodd gefnogaeth ragorol gan Ellen ei fam a llu o ffrindiau fu'n ei annog yn ystod cyfnodau caled. Doedd hi ddim yn hawdd o gwbl. Roedd y straen ar ei gorff yn sylweddol ac roedd yn falch o gael gorffwys mewn bath o rew ar ddiwedd pob diwrnod er mwyn esmwytháu cyhyrau ei goesau. Ond mi lwyddodd a thrwy hynny llwyddodd hefyd i godi swm anrhydeddus iawn o dros £5,500 hyd yn hyn. *Os hoffech gyfrannu gellir gwneud hynny ar wefan Justgiving neu trwy anfon i Glanerch, Y Ffôr LL53 6RF.*

Cyn-ddisgybl o Ysgol Glan y Môr ydi Fin ac ar hyn o bryd mae'n ennill profiad trwy fod yn gymhorthydd dosbarth yn Ysgol Borth y Gest cyn cychwyn ar gwrs ym mis Medi ym Mhrifysgol Bangor i'w gymhwyso'i hun i fod yn athro ysgol gynradd. Llongyfarchiadau mawr iawn i ti Fin a phob dymuniad da i'r dyfodol. Siawns na chei di gysgu am wythnos rwan.



# Y FFYNNON

## Papur Bro Eifionydd


**Cadeirydd:** Dewi Williams,
Tyddyn Deucwm Uchaf, Penmorfa,
Porthmadog, LL49 9SD

**Ysgrifennydd:** Catrin Evans,
Gwenfro, Y Ffôr
Ffôn: 01766 810552
gevans36@btinternet.com

**Trysorydd:** Gwerfyl Davies,
Llecyn, Pencaenewydd
Ffôn: 01766 810213
gwerfyldavies@gmail.com

**Trefnydd Hysbysebion:** Catrin Evans,
Gwenfro, Y Ffôr
Ffôn: 01766 810552
gevans36@btinternet.com

**Y Bwrdd Golygyddol:**
**Margaret Hughes**
Bryn Dyfnog, Cricieth
Ffôn: 01766 523161
dyfnog@gmail.com
**Dewi R Jones**
Llys Gwyn, Muriau, Cricieth
ebost: dewirjones57@outlook.com
Ffôn: 07710976388
**Wendy Rees**
Parciau Mawr, Cricieth
Ffôn: 07979 700445
wendyrees20@icloud.com

**Cysodi a dylunio:** Aled Davies

**Argraffu:** DIGIDOL YN UNIG


## Rhifyn nesaf



Cyfraniadau
i law erbyn:

**9 Mehefin**

Straeon, erthyglau newydd a llythyrau
i: **Margaret Hughes**
Bryn Dyfnog, Cricieth
ebost: dyfnog@gmail.com
Ffôn: 01766 523161

Colofnau misol i: **Dewi R Jones**
Llys Gwyn, Muriau, Cricieth
ebost: dewirjones57@outlook.com
Ffôn: 07710 976388

Newyddion y pentrefi, Clybiau
Ffermwyr Ifanc a'r Cynghorau
Cymuned i: **Wendy Rees**
Parciau Mawr, Cricieth
ebost: wendyrees20@icloud.com
Ffôn: 07979 700445

**Allan: 18 Mehefin**

# Y Ffynnon Gair Byr

PETAWN i'n cyfeirio at sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn 1962 fe fyddai'r brotest dorfol gyntaf ar Bont Trefechan yn Aberystwyth dros fuddiannau'r Gymraeg yn 1963, yn ogystal ag enwau rhai o gymwynaswyr mwyaf athrylithgar y Gymru yr ydan ni'n byw ynddi heddiw yn siwr o ddod i'r meddwl.

Ddiwedd y mis diwethaf bu farw un o sylfaenwyr y Gymdeithas sef yr academydd a'r cenedlaetholwr E. G. (Tedi) Millward yn 89 mlwydd oed. Fel y nododd Derec Llwyd Morgan ar 'Cymru Fyw' soniodd Tedi Millward erioed am y cyfnod y bu'n arolygu'r Tywysog Siarl trwy ei astudiaethau Cymraeg yn ystod ei arhosiad yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Er hynny mae'n eitha eironig mai trwy gyfrwng cyfres *The Crown* ar Netflix y cafodd y cyfnod yma ei eiliad o gyhoeddusrwydd.

Ond i'r cenedlaetholwr ag ydoedd Tedi Millward, a bortreadwyd yn arbennig iawn gan Marc Lewis Jones, nid yr wythnosau prin yma o diwtora a ddiffiniodd ei gyfraniad i'r Gymraeg ond oes gyfan o arddeliad a gweledigaeth a chred ddiysgog yng ngwerth ac enaid ei iaith a'i diwylliant. Go brin y buo 'na yn ein hanes Gymro mor ddiymhongar na fynnai ddim o'r lle blaenaf, nac ychwaith Gymro mor dawel ddidwyll ei argyhoeddiad dros ei iaith a'n ffordd o fyw.

Ym mis Mai 2020 pan ydan ni'n pwyso a mesur gwerth ac ystyr cymdeithas, a hynny mewn cyd-destun rhyfedd o gaethiwus ar un llaw a hynod werthfawrogol o'n gwasanaethau hanfodol ar y llaw arall, dwi'n rhyw gredu y byddai Tedi Millward yn falch o weld nad dilyn Lloegr yn slafaidd mo'n hanes. Mi ydan ni'n medru sefyll ar ein traed ein hunain a hynny heb fod ofn dweud hynny'n gyhoeddus.




Annwyl Olygydd,
UN O BENNAF difyrrwch Menna fy chwaer a minnau pan fyddwn yn cysylltu ar y ffôn y dyddiau blin hyn yw ceisio cofio geiriau hen gerddi a ddysgasom yn blant. Synnwn yn aml fel y dônt i'r fei o rywle ond cawn ein llorio'n aml hefyd wrth gwrs.

Digwyddodd hynny'r dydd o'r blaen gydag 'Yr hogyn gyrru'r wedd' sy'n dechrau fel hyn: 'Yr haul a ymsuddai dros y bryn/I'r eigion fel rhyw gawr'. Gwyddom fod amryw o benillion i'r gerdd. Gallwn gofio rhai ohonynt yn iawn ond mae'r drydedd llinell yn y pennill cyntaf wedi mynd. A fedrwch chi helpu os gwelwch chi'n dda?
***Beti Rowlands,***
Plas Hafan, Nefyn

**FEL gyda Ffynnon Ebrill dim ond ar y we y bydd y rhifyn hwn ar gael, i'w lawrlwytho'n rhad ac am ddim. Ond i'r rhai sydd heb fynediad i'r we mae modd trefnu i gael copi wedi'i argraffu ar bapur trwy ffonio Aled Davies yn Chwilog ar 01766 819120, gan drefnu i gasglu copi o Ael y Bryn. Y gost am y gwasanaeth yma yw £1 y copi.**


Mae'r Golygyddion yn gwerthfawrogi pob cyfraniad i'r Ffynnon ond ar yr un pryd cedwir yr hawl i gwtogi, cywiro, golygu neu eu gwrthod yn gyfangwbl. Hefyd nid yw pwyllgor Y Ffynnon o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr.



Ariennir yn rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Partly funded by
**Welsh Government**

# Bandiau Bach

FEL MORFF erstalwm mae'n rhyfeddol sut 'dan ni'n esblygu'n ffordd o fyw i ddygymod hefo her y coronafeirws, a sut mae taclo'r dihiryn wedi corlannu pobol i estyn llaw o bob cyfeiriad.

Clwb cerdded ydi Linc-di-lonc, criw o ffrindiau sy'n cymowta o gwmpas yr ardal. Gan na fedrai'r traed ein tynnu nghyd dyma droi at ein dwylo. Gwau a chrosio fu ein hanes dros yr wythnosau diwethaf, gwau a chrosio bandiau bach i'w rhannu i weithwyr y Gwasanaeth Iechyd, cartrefi gofal a gofalwyr ar hyd ac ar led.



***Casgliad o'r bandiau bach lliwgar***

Gan fod gofyn i'n gweithwyr allweddol wisgo mygydau i warchod eu hunain a'u cleifion rhag y feirws, mae clymu'r mwgwd i'r band bach tu ôl i'r pen yn brafiach o lawer ar y clustiau.




***Y band a'r mwgwd***

Yn wreiddiol darparu'n lleol oeddan ni, cario i gartrefi Bryn Awelon, Madog, Plas Newydd ac ysbytai Alltwen a Gwynedd, ond wedyn derbyniwyd ceisiadau o Gaerfyrddin, Llundain, Amwythig a Chaerdydd.

'Dan ni wedi bod wrthi fel lladd nadroedd ac wedi darparu cannoedd o'r bandiau mewn dau wahanol faint o bob lliw a llun a chyda botymau difyr, rhai ohonynt wedi'u tyrchu o hen ddroriau botymau neiniau! Mae'r gwerthfawrogiad wedi bod yn fawr, a chardiau a negeseuon hyfryd wedi'u derbyn.

Erbyn hyn mae'r dwylo gwreiddiol wedi lluosi gyda nifer o unigolion tu allan i griw Linc-di-lonc wedi bod wrthi'n brysur hefyd. 'Da i ddim i enwi neb yn fama, peth peryg fyddai hynny, ond mae merched o Gricieth, Pentrefelin, Bryncir, Porthmadog, Borth y Gest, Rhoslan – o ia, a Chaerfyrddin – wedi troi eu llaw at y gwaith; mae'r rhestr yn hirfaith a'r diolch yn fawr.

Fel yr ehangodd y criw diwyd fe ehangodd y gofynion o fandiau bach i fagiau 'scrubs' fel bod y gweithwyr yn medru bagio'u dillad budron ar ddiwedd dydd a'u rhoi yn un cowdal yn y peiriant i'w golchi ar ôl dod adra.

O hynny wedyn daeth y galw am gapiau pen gan fod offer gwarchod personol yn brin. Does wybod be ddaw wythnos yma! Ond beth bynnag ydi'r cais mae'r ymateb wedi bod yn rhyfeddol gyda'r rhai ohonom sy'n medru gwnïo wedi rhannu degau o fagiau erbyn hyn hefyd. Mae'n syndod fel mae band bach di-nod wedi medru gwneud cymaint o wahaniaeth ac wedi bod yn gatalydd i greu offer pwysig arall allan o ddim byd mewn gwirionedd.

Os gwir y daw rhyw dda o bob drwg, mae'r Corona wedi amlygu dygnwch, haelioni ac esblygiad rhyfeddol dynolryw i mi.

***W.R.***



***Dwy o nyrsus y gymuned, Phillipa Roberts a Sarah Lloyd, yn arddangos y bagiau – y naill yn wreiddiol o Bentrefelin a'r llall o Gricieth***

Beics Berno




Beics braf o'r Iseldiroedd
cyfforddus iawn - ansawdd ardderchog
yn ddelfrydol i grwydro lonydd Llŷn ac Eifionydd


ffoniwch cyn galw ogdd
cyfleusterau golchi dwylo
digon o le i gadw pellter

Berno Brosschot, Trefaes Bach, Sarn
01758 730542 / 07929 769033
www.facebook.com/beicsberno

@YFfynnon
YFfynnon




BRON i ddeufis yn ôl erbyn hyn bu farw Robin, Pant-glas Cennin fel y cyfeiriai pawb yn annwyl ato. Fel y nodwyd yn newyddion Llethrau Cennin y mis diwethaf roedd yn ŵr, tad, taid a hen daid hoffus a charedig. Yn union fel ag y gwnaeth pan fu farw Trefor, mab Robin, y llynedd fe gyfansoddodd Mei Mac y gerdd hon i'w gofio. Nid yn unig yn y geiriau ond rhyngddyn nhw a rhwng y llinellau y mae Robin 'yma', ei gyfarchiad a'i groeso a'i bersonoliaeth yn llonni ac yn llenwi cwmni. Heb amheuaeth fe aeth o â darn o'r Llethrau i'w ganlyn a darn hefyd o Sychnant yn Nhrawsfynydd.



*Robin Williams*

## ROBIN PANT GLAS

Pa ots os ydyw'n wanwyn?
Ni chawn un awr o'i flas
Wrth roi i orwedd yn y pridd
Ddarn anferth o Bant Glas.

Y dyn oedd fwy na'i hunan,
Â'r galon fwya' 'rioed;
Mi roedd y byd yn llawer gwell
Lle bynnag rhoddai'i droed.

Y ddafad ddu, dyn tafarn,
Y tynnwr coes mawr clên,
A safai o flaen unrhyw beth
A'i gymryd ar ei ên.

Mewn oes sy'n brin o degwch
Bu'n gefn i'w deulu i gyd,
Ei ddwylo cadarn fel dau ddrws
Ar led y pen o hyd.

Ni chaiff yr hwyl, na'r chwerthin
Ei ddilyn heddiw i'r gro:
Ei enw fydd yn dal ar ôl
Ar siediau hyd y fro.

Mi fydd o'n dal i herian,
Â'i hwyl a'i siarad plaen
Yn llenwi'n straeon bach fin nos,
Wrth i fywyd fwrw 'mlaen.

A phan fydd lleuad borffor
Dros Arfon, Môn a Llŷn,
O bell daw chwiban Robin Sych
I godi calon dyn.

***Meirion MacIntyre Huws***

Dyma nodyn Brian efo'i gerdd y tro yma: 'Fel y disgyblion gynt, dal i aros am ryw oleuni ydan ni'r dyddiau dyrys hyn. Fe ddaw, hwyrach, yng ngwyrth y byd natur amlwg sydd o'n cwmpas ar hyn o bryd. Dim ond i ni aros a sylwi a gwrando. Ond chwalwyd y ddelwedd hon yn llwyr pan gerddodd merch ifanc heibio'r tŷ y dydd o'r blaen wedi ymgolli'n llwyr yn rhyfeddod y miwsig benthyg oedd yn llenwi'i chlustiau!'

Plethodd Brian ei deimladau'n gryno mewn soned gelfydd, hynod synhwyrus. Ond mae'n amlwg bod yn rhaid i ni gofio nad ydi pawb ddim yn gwirioni 'run fath!

## PASG 2020

A ninnau'n swatio'n sownd mewn ofn a braw
Tu ôl i ddrysau sydd yn glep ar gau,
A rhu rhyw gorwynt Cofid un-deg-naw
Yn sgubo'r deiliach a hen frigau brau;
Fe glywais gân y fronfraith yn y gwrych
Yn arwain côr y wig ben bore glas,
Gan araf ddeffro blodau gwyllt y rhych
I ddenu pryfed o bob rhyw a thras;
Plu eira mân mewn coron flêr o ddrain,
Sawr melys mêl yr eithin yn y gwres,
Hyn oll, yn rhyfeddodau natur gain,
Yn werthfawrocach na llond pwrs o bres.
A gwelais ferch yn cerdded heibio'r tŷ,
Byd natur arall oedd ei chysur hi!

***Brian Ifans***

Mae'n debyg bod yr iachaf yn ein plith yn hel meddyliau yn ystod y dyddiau digynsail yma a phatrwm byw y mwyafrif ohonom yn debyg iawn i'w gilydd, mae'n siwr gen i. Heb os mae yna straen a llusgo mlaen, a hyd yn oed wrth fynd am dro mae'r ddwylath yn 'ddeddf' a'r 'osgoi' fel petaech chi'n cerdded rownd tro. Rhyw 'osgo' felly sydd yna i bob un ohonom.

Diolch i Elwyn am rigymau i gofnodi'n byw a'n bod, ac am nodyn gobeithiol y rhigwm olaf.

## GOFID-19

Mae carchar clo y pla pandemig
Yn herio oriau'r hen a'r unig.

Pob dydd yn llusgo tua'r gwyll
Yn llawn delweddau erchyll, hyll.

Popeth yn gwbl groes i'r graen,
Ofn ac amheuon yn haen ar haen.

Y feirws corona'n hunllef a braw
A ffiniau'r bygythiad yn ddi-ben-draw.

Pawb heb eithriad yn teimlo'r straen
O hunan ynysu fel erioed o'r blaen.

Pellhau i leihau, ar osgo i osgoi,
A drysau ymwared i gyd wedi'u cloi.

Doed eto iachâd a brysied y dydd
I lacio'r hualau a cherdded yn rhydd.

***R. Elwyn Thomas***

Er i deyrngedau ei theulu gael eu cyhoeddi yn rhifyn Mawrth o'r Ffynnon dyma ychwanegu atynt englyn o waith un o 'hogia' Pencae i gofio Jennie Wyn Jones. Mae Robin yn gynnil ac annwyl iawn yn nodi camp y wraig hon a garodd ei theulu a'i hardal a rhoi'r cwbl iddynt.


## JEAN, AEL-Y-DREM, PENCAENEWYDD

Milltir sgwâr a'i theulu garodd – a nain
Jini Wyn ddangosodd
Paham, fel mam, nad oes modd
I hynny fod yn anodd.

***Robin Gwyddfor***

Diolch i'r beirdd am eu cerddi. Anfonwch eich cyfraniadau i'r golofn at Dewi R. Jones, Llys Gwyn, Muriau, Cricieth neu trwy gyfrwng ebost: dewirjones57@outlook.com

# Zoomio am y capel!




ERS i'n capeli gau eu drysau dros dro ganol mis Mawrth mae amryw o'n haelodau wedi gweld colli oedfa wrth i batrwm y Sul newid. Mae sawl gweinidog a phregethwr lleyg hefyd ar hyn o bryd yn ei chael hi'n chwithig iawn wrth fethu mynd o gwmpas gydag oedfaon ar y Sul, ac ambell un wedi cychwyn darlledu'n fyw ar Facebook neu baratoi myfyrdod ymlaen llaw a'i rannu ar y we trwy YouTube neu gyfrwng tebyg, a diolch am bob un o'r ymdrechion hynny. Ond eto mater o eistedd 'nôl a gwylio ydi hynny, heb y cyfle i gyfarch na sgwrsio gyda'r gynulleidfa. Dwi'n gredwr cryf mewn cynulleidfa yn cydgyfarfod ond ar hyn o bryd mae gwneud hynny wyneb-yn-wyneb yn amhosib wrth gwrs.

Un cyfrwng cymharol newydd sydd wedi dod yn ffordd o fyw i lawer erbyn hyn yw cynadledda neu gynnal cyfarfodydd dros y we trwy gyfrwng Zoom, Hangout, Teams neu Lifesize. Gyda'r rhaglenni hynny ar y we gellir cynnal cyfarfod i hyd at 100 o bobl am gyfnod o 40 munud yn rhad ac am ddim. Gyda hynny'n gweithio mor hwylus i mi yn fy ngwaith bob dydd, a gweld ambell eglwys arall yn mentro cynnal oedfa dros un o'r cyfryngau hyn, dyma gydio yn yr abwyd a phenderfynu cynnal oedfa arbrofol ar Sul cyntaf mis Mai am 10.00.

Rhaid cyfaddef fy mod i wedi bod yn reit betrusgar, ac amheus hefyd wrth feddwl faint fyddai'n medru ymuno. Roeddwn yn sylweddoli nad oedd bron neb wedi defnyddio'r cyfrwng eisoes, a hefyd yn ymwybodol iawn na fedrai llawer o'r ffyddloniaid ymuno gan nad oedd ganddynt fynediad i'r we. Ond penderfynwyd mentro gan gynnal cyfarfod prawf gyda phump o swyddogion yr eglwysi. Wedi sgyrsie hir ar y ffôn ar sut i osod Zoom fe lwyddwyd i gael pawb i siarad hefo'i gilydd, a hynny wedyn yn rhoi hyder i fynd ati i drefnu oedfa.


Treuliwyd dau ddiwrnod dros y ffôn yn esbonio i bobl beth oedd Zoom, a sut i gael mynediad iddo ar iPad neu gyfrifiadur. Erbyn y nos Sadwrn roedd 32 wedi cysylltu â fi i gofrestru, ac ar y bore Sul cyntaf hwnnw gyrrwyd y linc allan ychydig funudau cyn 10.00. O fewn 2/3 munud roedd y 32 cysylltiad wedi agor a phawb yn dechre sgwrsio a chyfarch ei gilydd! Roeddwn yn ymwybodol bod rhai yn gweld eu cymdogion a'u ffrindiau am y tro cynta ers chwech wythnos ac roedd hynny'n brofiad emosiynol iawn. Nid pawb wrth gwrs sydd â mynediad i'r we ond braf iawn oedd clywed, erbyn yr ail wasanaeth, i Dyfed a Doris yn Pencae fod yn rhan o'r oedfa drwy i William Hughes drws nesa roi ei liniadur ar y silff ffenest, gydag yntau a Rhian yn gwrando tu fewn a Dyfed a Doris yn eu cotiau yn gwrando tu allan.

Wedi cael pawb ar-lein ar y Sul cyntaf aed ati i gynnal oedfa 40 munud. Cawsom ddarlleniadau, gweddïau a myfyrdodau, heb sôn am y cyfle i gydganu dau emyn a chydadrodd Gweddi'r Arglwydd. Doedd 'na fawr o gyhoeddiadau, ac er chwithdod i'r trysoryddion ni lwyddwyd i wneud y casgliad, ond heblaw am hynny fe weithiodd pob dim yn ddigon hwylus. Roedd tua 50 o bobl ar y sgrin, o Gricieth i Lwyndyrus. Wedi'r arbrawf cyntaf hwnnw mae eraill wedi dod i gysylltiad ac erbyn yr ail Sul llwyddwyd i gael dros 40 aelwyd ynghyd, a chafwyd cyfle i groesawu pregethwr gwadd sef Iwan Llewelyn Jones. Erbyn y trydydd Sul roedd yn agos i 50 aelwyd wedi ymuno, a chan ei bod yn wythnos Cymorth Cristnogol braf oedd medru croesawu Anna Jane Evans i'n hannerch ar waith Cymorth Cristnogol.

Os oes rhywun yn y fro am ymuno (ar yr amod nad yw hynny'n tynnu neb i ffwrdd o unrhyw drefniant cyffelyb mewn gofalaeth arall) mae croeso i chi ddod i gysylltiad â fi ar 01766 819 120 er mwyn gallu trefnu i osod Zoom i fyny ar eich cyfer. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw cyfeiriad ebost, ac un ai gliniadur neu iPad, ac o fewn dim fe allwch chithau hefyd fod yn ei zoomio hi am y capel fore Sul nesaf!

***Aled Davies***



*'Yr hen lesmeiriol baent'*

PEN-BLWYDD HAPUS! Blwydd oed! Beth? Y Pytiau! Oes, mae 'na flwyddyn gron wedi treiglo ers i mi ddechrau rhoi Pytiau Pennant ar gof a chadw. Pwy fyddai wedi meddwl y byddai'r gwanwyn a'r Mai sydd ohoni mor wahanol i'r llynedd. Gwahanol, arswydus, digynsail – ydi, mae'r felin eiriau wedi bod yn brysur.

Ond yng ngofid y Covid mae yna ambell i lygedyn gobeithiol a lliwgar, a'r gwanwyn yma wedi bod yn gyfle prin i fynyddoedd a choedlannau gael eu gwynt atynt. Mai ydi mis 'y gwyllt atgofus bersawr' a'r 'hen lesmeiriol baent'. Tra bydd iaith a thra bydd glesni clychau'r gog yn lliwio'r 'ddôl a chlawdd a llechwedd', go brin y daw geiriau fydd yn rhagori ar eiriau Bardd yr Haf. Ond beth petai R. Williams Parry wedi sôn am Mycorrhiza arbusculus yn yr un gwynt â'r 'hwyrol garol' a'r 'Cyrraedd, ac yna ffarwelio'? Tybed wedyn a fyddai 'Clychau'r Gog' wedi cael lle mor gynnes yng nghalonnau'r Cymry?


Ie, Mycorrhiza arbusculus. Math o ffwng ydi hwn sy'n bodoli lle ceir digonedd o ddail coed yn pydru a ffurfio deilbridd. Y ffwng yma sy'n galluogi clychau'r gog i syntheseiddio'r maeth yn y deilbridd a'i droi'n fwyd. Heb hwn, tlawd iawn fyddai 'coed y goriwaered' heb eu 'mudion glychau'.

Ond nid mud mo'r gog. Soniais flwyddyn yn ôl am 'ping ping' y neges destun o 'dopia Garn' yn cofnodi'r dychweliad ar 18 Ebrill. Daeth 'ping ping' eto eleni o ffôn Cliff Williams, Llechwedd, Garndolbenmaen yn cofnodi'r deunod ar 22 Ebrill. Diolch am ambell beth digyfnewid yn y cyfnod digynsail sydd ohoni.

TONIC
Therapydd Harddwch
Cricieth
Am apwyntiad cysylltwch
â Nan ar **(07729) 291 930**

**Caron Jones**
Plymio a Gwresogi
**Gwasanaethau, Gosod ac Atgyweirio Nwy – Olew – LPG**
**Ffôn: (01766) 771 017**
**Symudol: (07731) 148 867**
Pen Draw, Minffordd,
Penrhyndeudraeth LL48 6EH
**caron89@btinternet.com**

MOTOBEICS
GWION PRYS MOTORCYCLES
Nantcyll Uchaf
Pantglas, Garndolbenmaen LL51 9DJ
**(01766) 530 831 / (07900) 594 946**
Rwy'n cynnig gwasanaeth lleol am bris cystadleuol
Safle MOT
Trwsio a gwasanaethu motobeics o bob math
yn ogystal â 'Quad Bikes'
Gwasanaeth casglu a danfon ar gael

**Gwasanaeth Trin Traed**
Yn eich cartref
Richard Thomas SrCh.
**Ffôn: (01758) 612 384**
ar ôl 5 o'r gloch


**JOHN TUDOR**
**Cyfrifydd Siartredig Ardystiedig**
**CYFRIFON**
**TRETH AR WERTH**
**PAYE**
**TRETH INCWM PERSONOL A BUSNES**
**CYNGOR I DDATBLYGU BUSNESION**
**(01758) 701 755 • (07977) 910 925**
**help@jtudor.co.uk**
John Vaughan Tudor FCCA
3 Kingshead, Pwllheli, Gwynedd LL53 5DR
*Archwilydd wedi ei gofrestru gan*
*Gorff Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig*
ACCA




## Ifan Jones

**1. Cefais fy ngeni a'm magu yn:**
Fy ngeni yn Ysbyty Dewi Sant Bangor a fy magu yng Ngefn y Maen, Llanystumdwy

**2. Rwy'n byw yn awr yn:**
Penmaen, Gwaun Ganol, Cricieth

**3. Fy swydd yw:**
Rheolwr Gweithrediadau gyda Dŵr Cymru

**4. Pa swydd ar wahân i'ch swydd bresennol a fyddech chi yn hoffi wneud?**
Chef – dwi wedi bod wrth fy modd yn coginio erioed

**5. Person Sioe neu Eisteddfod?**
Eisteddfod

**6. Beth yw eich car presennol?**
Honda CRV arian efo llawer o filltiroedd ar y cloc

**7. Pa gar hoffech chi gael?**
Tydw i ddim yn ddyn ceir ond mi fuaswn wrth fy modd yn cael Golf GTI Mk1 coch. Clasur! Y car cynta i adael argraff arnaf

**8. Pa raglenni y byddwch yn gwrando fwyaf arnynt ar Radio Cymru?**
*Ar y Marc* a *Sioe Tudur Owen* ar fore Sadwrn

**9. Pa raglenni y byddwch yn eu gwylio fwyaf ar S4C?**
Mae *Clwb Cyw* a *Stwnsh Sadwrn* wastad ar y bocs acw!

**10. Pa beth fydd yn gwneud i'ch gwaed ferwi?**
Pan mae rhywun yn mynd i drafferth i godi baw eu ci, ei roi mewn bag plastig bach ac yna'n addurno rhyw ffens neu goeden efo fo i bawb gael ei weld am wythnosa wedyn. Aargh…!



*Ifan a'i ferched, Elin a Manon*

**11. Pa anifeiliaid anwes sydd yn byw yn eich tŷ chi?**
Mog y gath. Mae hi'n debyg iawn o ran edrychiad a chymeriad i Mog o lyfrau Judith Kerr

**12. Pe buasech yn ennill pryd o fwyd i dri mewn gwesty moethus 5 seren pa ddau berson arall fuasai'n cael y fraint o'ch cwmni?**
Mam ac Amy fy ngwraig. Mae'r ddwy yn haeddu cael eu difetha

**13. Sut fyddwch yn ymlacio?**
Coginio yn y gegin fel arfer gyda fy hoff gerddoriaeth yn bloeddio ar y spicar!

**14. Pa un yw eich hoff siwrnai?**
Mordaith o unrhyw borthladd yn ne Lloegr tuag at Ffrainc ar ein gwyliau. Mae'r daith wedi bod yn un gyffrous i mi erioed ac un y byddwn yn parhau i'w gwneud fel teulu

**15. Pa berson ydych yn ei edmygu?**
Neb yn neilltuol ond dwi'n edmygu pobl sydd'n ymroi yn gyfan gwbl, heb amod, i helpu eraill

**16. Beth yw eich hoff anifail?**
Cranc – mae nhw moooor flasus!

**17. Ar daith hir yn y car pa CDs fyddwch yn gwrando arnynt?**
'Cwm Rhyd y Rhosyn' bob tro pan fyddwn ar daith deuluol, ond pan fydda i ar fy mhen fy hun mi wranda i ar rwbath da o Otis Redding i Bwncath a Pink Floyd

**18. Sut y byddech yn hoffi cael eich cofio?**
Cael fy nghofio â chariad gan y bobl sy'n bwysig i mi yn y bywyd yma – dim llawer o ots gen i am farn y gweddill i ddeud y gwir

**19. Beth sy'n eich digalonni?**
Pan mae'r melynwy yn torri wrth roi'r ŵy yn y badell

**20. Pa amser o'r dydd sydd orau gennych?**
Yn y bore cyn i bawb ddeffro. Amser i gael 'llonydd' cyn dechra'r diwrnod

**21. Pryd ac yn lle y buoch hapusaf?**
Mae gennyf atgofion melys iawn o fy mhlentyndod yng Nghefn y Maen. Cartref hapus a lle delfrydol i fod yn fachgen bach wrth grwydro a chael anturiaethau gyda fy mrawd a'm chwiorydd

**22. Gyda phwy y buasech yn hoffi treulio penwythnos?**
'Da ni 'di bod mewn loc-down ers 6 wsnos fel dwi'n sgwennu hwn, felly fysa rhywun gwahanol yn gwneud y tro!

**23. Beth yw eich syniad o hapusrwydd perffaith?**
Tafarn dda, cwrw da, cwmni da gyda digon o hwyl a chanu!

**24. Petai'n rhaid i chi adael Cymru pa wlad arall fyddai eich dewis a pham?**
Buaswn yn crwydro a theithio ledled y byd yn gyntaf, tan i mi ddarganfod y lle delfrydol




# Greenberry Café

CYN HIR cawn fynd i grwydro unwaith eto, ac un o'r llefydd gwerth mynd iddo ydi congl fach o Eifionydd ym Mryn y Briallu, Llundain. O ben y Bryn, gyda chofeb Iolo Morgannwg dan eich traed, gallwch weld Llundain i gyd yn ymestyn o'ch blaen. Ymlwybrwch wedyn i lawr y stryd fawr hyfryd trwy'r fwrdeistref bentrefol, ariannog tuag at y Greenberry Café.


Y Greenberry Café

Cyfnod yn gweithio mewn becws a siop ddanteithion yn San Ffrancisco oedd cychwyn gyrfa lwyddiannus Morfudd Richards, Fferm Glanllynnau, Chwilog gynt, ym myd bwyd. Disgrifia ardal Height Ashbury fel lle digon gwyllt yn yr wythdegau ond roedd wrth ei bodd hi gan fod diwylliant bwyd cryf yno. Gwyddai mai gyrfa yn y byd hwnnw yr oedd hithau am ei ddilyn ond er cymaint dylanwad San Ffrancisco dywed mai ysbrydoliaeth fwyaf ei gyrfa oedd ei mam, Elizabeth Richards, oedd wrth ei bodd hefo bwyd a bwydo, a chael ffrindiau draw i swpera yn Glanllynnau. Dyna bellach mojo Morfudd – cynnal un swper hirfaith hefo gwesteion gwahanol bob dydd.

Yn Llundain yr agorodd hi ei bwyty cyntaf, Lola's, yn ardal Islington o'r ddinas a bu yno am tua deng mlynedd. Wedyn prynodd fan hufen iâ hen ffasiwn, 'Lola's on Ice', a bu'n crwydro partïon a phriodasau i werthu ei hufen iâ cartref, organig. Er iddi wedyn ddilyn gradd mewn astudiaethau gwin dychwelyd at ei chariad cyntaf wnaeth hi ac agor y Greenberry. Fe'i haddurnodd ei hun gyda help llaw ei chwaer Lowri-Ann cyn agor y drysau yn 2012.

Heddiw mae 20 aelod o staff yn gweithio iddi ac er mai rôl hyd braich sydd ganddi hi ei hun yno, tydi hi ddim wedi anghofio cyngor doeth ei thad Hywel Richards mai yn esgid y ffermwr mae'r tail gorau. Felly bydd yno'n gyson yn cadw llygaid ar bethau, yn annog y criw ac yn cynnal perthynas gyda'r cwsmeriaid ffyddlon. Bydd yn cyfarfod yn wythnosol gyda'i chogydd a dewis y gwin. Dyna ran bleserus y swydd, meddai, y gwaith papur ydi'r 'byrdwn' ac mae digon ohono.


Awyrgylch anffurfiol sydd i'r Greenberry – byrddau pren, waliau brics a bar hir derw lle gallwch oedi gyda ffrindiau i fwyta ac yfed. Dywed rhai ei fod yn debyg i fwytai yn Brooklyn – falla bod America wedi dylanwadu mwy arni nag mae hi'n ei feddwl. Eistedd allan wnaethon ni pan fuon ni yno a mwynhau gweld y byd yn pasio; lle bywiog gyda *buzz* o'i gwmpas ac awyrgylch braf. Gyda'r nos mae'r awyrgylch yn wahanol eto gyda chanhwyllau a cherddoriaeth jazz.

Blas rhyngwladol sydd i'r fwydlen a'u prydau mwyaf poblogaidd ydi Shakshuka, brecwast traddodiadol o'r Dwyrain Canol gyda harissa ac iogwrt; crempog hefo ricotta, aeron cymysg a suryp; afocado hefo tomato, slotsyn a salsa coriander ar dost, a waffl hefo becyn ac ŵy. Gyda'r nos gweinir prydau o Siapan a Morocco i enwi dim ond dwy wlad.

Diau y gwelwch chi ambell seleb yn y cyffiniau gan fod Bryn y Briallu yn gartref i enwogion fel Jon Snow, Andrew Marr, Mary Portas, Alan Bennett, James Corden, David Walliams a Robert Plant o Led Zeppelin. Ond nid yno i fod 'in' y mae'r Greenberry, darparu bwyty lleol sy'n defnyddio cynnyrch da hefo criw croesawus wrth law ydi bwriad Morfudd. 'Deith hynny ddim allan o ffasiwn, meddai!

Ar hyn o bryd wrth gwrs mae 'na heriau gwahanol i ffasiwn yn wynebu'r lle ond mae Morfudd am aros yn obeithiol, ac ar y funud mae'n mwynhau ei chyfnod yn ôl yn yr ardal ym Mhorthmadog.

Ond hyd nes medrwch chithau fynd am Lundain gellwch gael blas bach o'r Greenberry adra. Dyma i chi rysáit y Shakshuka.


Y Shakshuka

Yn fara beunyddiol yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica, mae'r Greenberry yn ei weini gydag iogwrt Groegaidd, harissa, past chili poeth a chydig o ddail coriander a sibwn. Fe allech chi wrth gwrs ddefnyddio caws *feta* yn lle iogwrt a chydig o fara cynnes hefo fo. I fwydo dau dyma'r cynhwysion y byddwch eu hangen.

**Cynhwysion:**
100ml olew olewydd gwyryf iawn
1 nionyn wedi'i falu'n fân
2 ben garlleg wedi'u malu'n fân
1 pupur coch wedi'i dorri'n giwbiau
1 pupur melyn wedi'i dorri'n giwbiau
1/2 llwy de o hadau cwmin
1/2 llwy de o bowdr cwmin
1/2 llwy de o bowdr coriander
1/2 llwy de o naddion tsili
Pinsied o saffron (dewisol)
1 llwy fwrdd o biwri tomato
400g tomato tun
Mêl neu siwgr brown
100 ml dŵr
4 wy
Pupur a halen

**I addurno:**
Ychydig o ddail coriander neu basil
Sibwn wedi'i dorri
Iogwrt wedi'i gymysgu hefo'r past harissa (dewisol)

**Dull:**
Cynheswch 50ml o'r olew olewydd mewn sosban lydan gyda gwaelod trwchus iddi a ffriwch y nionyn dros wres canolig nes bydd yn dryloyw ond heb frownio. Ychwanegwch y garlleg a choginio am ychydig funudau eto, wedyn ychwanegwch y pupur, hadau cwmin, naddion tsili a'r saffron (os ydych am ei ddefnyddio). Coginiwch nes bydd y pupur wedi meddalu ac wedyn ychwanegwch y powdr sbeis a'r piwri tomato cyn ychwanegu'r dŵr i lacio'r past i wead saws tew. Cymysgwch y tomatos tun i mewn ac (at eich dant) ychwanegwch chydig o bupur a halen cyn ychwanegu'r mêl neu siwgr brown. Cymysgwch yn dda cyn ychwanegu gweddill yr olew i roi gorffeniad sgleiniog i'r saws. Trowch y gwres i lawr yn isel a gadael i'r saws fudferwi am tua 45 munud i awr, fel ei fod yn lleihau ond yn cynyddu mewn blas. Yn ystod yr amser yna fe fydd yr olew ar yr wyneb wedi troi'n lliw coch dwfn ac wedi amsugno blas bendigedig y sbeis. Gwnewch bedwar twll yn y saws a thorrwch ŵy i mewn i bob twll gan gymryd gofal i beidio â thorri'r melynwy. Ychwanegwch bupur a halen at bob ŵy. Gorchuddiwch y sosban a choginiwch am tua 3–5 munud dros wres canolig. Fe ddylai'r stêm goginio'r gwynwy gan adael y melynwy yn feddal. Pan fydd yr wyau wedi coginio tynnwch y sosban oddi ar y gwres a thaenu'r iogwrt a harissa ar yr wyneb hefo'r perlysiau a'r sibwn. Bwytewch yn syth.

# Buwch a llo, a llo a llo arall



***Morgan Cybi 12 oed a'i gyfnither Gres Alys 9 oed yn edmygu'r newydd-ddyfodiaid***

DIGWYDDIAD gweddol anghyffredin ydi gweld buwch yn bwrw dau lo. Hynod anghyffredin ydi gweld geni tri a'r tri yn fyw ac yn iach ac yn ffynnu. Dyna ddigwyddodd yn ddiweddar ym Mrychyni pan ddaeth heffer Aberdeen Angus bedwar mis ar hugain oed â thri llo iach – un gwryw a dau fanw. Heffer wedi ei magu gan Abner Hughes ydi'r fam ac wedi cael tarw Limousin du croes. Roedd Abner wedi amau ei bod yn cario dau lo ac o'r herwydd wedi ei thynnu oddi wrth weddill y gwartheg er mwyn iddi gael mymryn mwy o sylw. Feddyliodd o erioed ei bod yn cario tri. Annhebygol iawn ydi y gwêl o yr un peth yn digwydd eto gan fod y siawns o gael tri llo yn un mewn 100,000 yn ôl y gwybodusion.

## Arwydd Gobaith Cwm Pennant




ARWYDD i godi calon wedi'i greu gan Emily Clark o Gwm Pennant. Da iawn hi.

# Haws gwneud na dweud!

BEDAIR BLYNEDD yn ôl cynhaliwyd ymchwiliad rhyngbleidiol (Ymarferiad Cygnus) i weld pa mor barod yr oedden ni i ymateb i unrhyw argyfwng pandemig a fyddai'n ein bygwth. Prif ganfyddiadau'r ymchwiliad oedd y byddai'r Gwasanaeth Iechyd yn chwalu ac y byddai hyd at 750,000 yn marw. Ymateb rhai gwledydd fel Singapore a De Korea oedd cynllunio i atal unrhyw feirws rhag lledu trwy brofi, mynd ar drywydd cysylltiadau, a chasglu stoc o offer amddiffyn pwrpasol. Ymateb gwledydd Prydain oedd gofyn beth ellid ei wneud i gynnal effaith y drychineb wedi'r llanast. Ni welodd casgliadau'r ymchwiliad olau dydd!




***Andrew Cavender***

Un a fagwyd yn Nhrefor yw Andrew Cavender ond mae'n byw yn Nhŷ'n Coed, Llanystumdwy efo Angela ac Erin a Jac ers pymtheng mlynedd bellach. Mae'n cynnal busnes ymgynghoriaeth asbestos ei hun ers pum mlynedd a'i ddiddordebau yw mynd allan yn y cwch i bysgota ac ymchwilio i hanes chwareli ithfaen lleol. Ond does ganddo ddim rhyw lawer o amser i ymhél â'i ddiddordebau y dyddiau hyn. Mae'n llawer rhy brysur. Rhaid gofalu am anghenion y plant yn un peth gan eu bod adref o'r ysgol, a'u dysgu i werthfawrogi'r llwybrau cerdded bendigedig sydd gennym yn yr ardal.

Ond teimlai ei bod yn ddyletswydd arno i ymateb hefyd i fideo a welodd o'r Dr Eilir Hughes yn pledio ar i ymwelwyr gadw draw ac aros adref a pheidio â rhoi mwy o bwysau ar ein Gwasanaeth Iechyd ni yn yr ardaloedd hyn. Felly dyma bloncio cerbyd o flaen prif fynedfa Hafan y Môr yn syth bin i gefnogi'r apêl. Bu'n ymgyrch effeithiol!

Yna ar ôl holi'r doctoriaid lleol dyma ddefnyddio ei gysylltiadau â'r diwydiant asbestos i gasglu masgiau ac ati. Roedd fel taflu carreg i bwll o ddŵr a chynyddodd y diddordeb a'r brwdfrydedd. Gwelwyd bin casglu offer amddiffyn personol wedi ei osod yn amlwg ar gyrion Llanystumdwy i ddechrau, ac yna rhai tebyg ym Mhwllheli, Garndolbenmaen, Tremadog, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog.

Hyd yma rhannwyd 500 o eitemau i'r gweithwyr allweddol a bellach mae rhwydwaith o dros 50 o ferched wrthi fel lladd nadroedd yn gwneud masgiau a hetiau a dillad atal haint (*scrubs*), a hynny'n hollol wirfoddol. Mae 400 o warchodwyr wyneb (*visors*) wedi eu creu a'u dosbarthu yn ogystal. Mae 6,000 o bobl o bob oed yn aelodau o'r dudalen gweplyfr a grëwyd, ac ers cwta mis o amser cafwyd dros 60,000 o ymatebion a sylwadau. Mae prinder o hyd ac erbyn hyn mae'r fenter wedi ei chofrestru trwy elusen Awyr Las gyda GIG.

Mae'n dyled ni'n drwm i'r rhai sy'n barod i sefyll yn yr adwy fel hyn a hoffai Andrew ddiolch yn arbennig i Nicola Pacey, Andrea Feutch Hughes, Mary Lou, Sam Humphreys, Sandra Boden Jones, Ceri Roberts, Bethan Bont Roberts a Rob Hughes am eu cefnogaeth. Ond mae'r diolch mwyaf i Andrew am daflu'r garreg i'r pwll dŵr yn y lle cyntaf. Llongyfarchiadau mawr iddo. Tra mae rhai yn hoff iawn o ddweud, mae eraill yn barod iawn i wneud. Diolch amdanynt.





**CABLE GUYS**
**Yn troi Cymru'n ddigidol**


Freesat Digidol • Freeview Digidol
Uwchraddio Erials • Trwsio Erials
Dosbarthiad UHF
Gosodiadau mewn carafán
Amcan Bris am ddim
Prisiau cystadleuol

Am fwy o fanylion, ffoniwch Glyn ar:
**(01766) 512 107 (07789) 716 332**
28 Stryd Fawr, Tremadog, Gwynedd LL49 9RD

**Gwasanaethau Angladdau**
**PORTHMADOG**
**10 Stryd Newydd, Porthmadog**

Rheolwr Swyddfa
ac Ymgymerwr Angladdau
**Karen Vaughan (01766) 514 333**
karen@porthmadogfunerals.com
• Capel Gorffwys Preifat
• Sylw personol 24 awr
• Cynlluniau angladd *'Golden Charter'*
• Cerrig Coffa

**H.O. Davies Cyf.**
Trefnwyr Angladdau Annibynnol
yn gwasanaethu ardal eang.
**www.porthmadogfunerals.com**




# Cerdded y Palmant Golau

EIDDO Harri Parri yw'r geiriau, a theitl ei gyfrol ddiweddaraf sydd ar fin ymddangos o'r wasg. Er nad yw'r awdur yn ystyried y gyfrol yn 'hunangofiant' fe ddywed ei bod yn 'llawn cymaint o gofiant i dair bro ag ydi hi i un person'. Gweinidogaeth liwgar Harri mewn tair bro sydd yn clymu popeth yn un stori. Ond, o fod yn 'gofiant tair bro', y mae hefyd yn bortread o'r eglwys yn ei chymuned ac yn thema bwysig ar drothwy'r Pentecost.

## Diolch am ddoe

Mae'r tair bro yn cael eu cyflwyno mewn tair pennod, sef 'Dringo i Uwch Aled', 'Hwylio am Borthmadog' ac 'Angori yng Nghaernarfon'. Yn ôl yr awdur, 'heb garedigrwydd ac ysbrydolrwydd pobl y tair bro ni fyddai stori i'w hadrodd'. Ond sôn am weinidogaeth! Go brin bod unrhyw weinidog anghydffurfiol Cymraeg o'i genhedlaeth wedi llwyddo i bontio rhwng y ffydd Gristnogol a'n diwylliant Cymraeg mor llwyddiannus.

Mae'n gyfrol liwgar, llawn lluniau a difyrrwch ac mae arddull Harri, yr hiwmor, y dychan gogleisiol, ei bortreadau cynnes a'i gariad at bobl yn ei gwneud yn bleser ei darllen.

Mae'r stori'n dechrau yn Uwch Aled a'r arbrofi cynnar – fel holi'r pregethwr ar ôl y bregeth, yr hwyl, a'r aelod nad oedd wedi cyfarfod y gweinidog newydd yn gofyn iddo, 'A sut ma'ch tad?' Mae'n ymestyn i basiantau'r Gronyn Gwenith, tros 20 ohonynt, heb anghofio Cwmni Ieuenctid yr AnniMeth – yn dathlu ein hetifeddiaeth Gristnogol yng Nghaernarfon rhwng '78–'09. Yn y canol roedd Porthmadog a chyfnod gafr eciwmenaidd o'r enw Seffora (gwraig Moses) a ddaeth i bori 'Bryniau Casia' sef y tir gwyllt rhwng y Ficerdy a'r Mans, a chyfnod rhyfeddol o ddylanwad Harri ac eraill ar fwrlwm ysbrydol ymysg pobl ifanc yr eglwysi. Yn ôl Harri roedd 'mwy nag un angor wedi ei ollwng'. Cynhaliwyd 'Digwyddiad 73' ym Mhafiliwn Corwen i ddathlu'r ffydd a 250 o ieuenctid yno. Ehangu ei weinidogaeth oedd golygu cylchgrawn ieuenctid *Byw*, *Antur* (i blant) a'r *Goleuad*; sefydlu gwasg Tŷ ar y Graig gyda Gareth Maelor; cyhoeddi ac ysgrifennu pob math o gyfrolau yn ogystal â 40 mlynedd o storïau Porth yr Aur a'r gweinidog diniwed, lletchwith ond gwraig lawer mwy hirben. Ac mae llawer mwy.

## Dathlu heddiw

Rydym ar drothwy'r Pentecost, gŵyl llawenydd a gobaith. Nid ydym ni a'n holl wybodaeth yn colli hanner digon o ddagrau wrth ymgyfarwyddo â byd lle mae 7,500 ar gyfartaledd o blant dan 5 oed yn marw *yn ddyddiol* ymhell cyn bod sôn am Cofid-19. Ond daw gobaith, yn aml trwy alar, fel golau o dywyllwch.

Mae awdur *Cerdded y Palmant Golau* yn gwybod yn iawn am balmant yr ochr dywyll ond, bron yn ddieithriad, 'glynu at y llon a'r lliwgar' y mae'r gyfrol hon a sicrwydd tawel fod golau yn medru chwalu tywyllwch ar unrhyw ochr i'r stryd. Mae thema'r gyfrol yn glir fel golau dydd – adennill llawenydd er mwyn i olau lifo 'o'r man addoli i'r gymuned'. Pontio ein ffydd a'n diwylliant eto.

Gweinidogaeth lydan fu un Harri Parri, ac os oes cymaint i'w gofio ar drothwy'r Pentecost mae digon i'w ddathlu hefyd.

IGAM OGAM
CYNLLUNWYR GWALLT
44 Stryd Fawr
Cricieth
(01766) 522 217
Arbenigo mewn torri, lliwio a phermio

Cwmni TARIAN Cyf.
Cyngor ar Bensiynau a Buddsoddiadau
Gwasanaeth Ariannol i Fusnesau ac Unigolion
Cysylltwch ag Aled Evans
Ffôn: (01758) 613 030 • (07786) 015 186
Ebost: post@tarian.co.uk
www.tarian.co.uk
Cwmni Tarian Cyf. • 7 Sgwâr y Farchnad • Pwllheli LL53 5RU
Mae cwmni Tarian Cyf. yn gynrychiolydd apwyntiedig o LJ FINANCIAL PLANNING LIMITED, wedi ei awdurdodi a'i reoli gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

W. H. Evans
Melin Llecheiddior, Bryncir
Ffôn/Ffacs: (01766) 530 635
Masnachwyr Amaethyddol
- Welingtons
- Dillad Glaw
- Offer ar gyfer y fferm
- Stanciau ac offer Ffensio
- Gwrteithiau
- Glo



- Bwydydd Anifeiliaid, bagiau mawr a bach
- Bylc
- Bwyd Cŵn
- Pwlp Betys
- Gwair a Gwellt
- Blociau



# Lle mae hi rwan?

## Ann yn dringo grisiau'r sêr

YCHYDIG ddyddiau cyn i'r cloi mawr gau amdanom cyrhaeddodd Ann Davies Lumsden, ei gŵr Jim a'r genod, Rhianwen ac Isla yng Nghricieth. Roedd y teulu bach wedi mudo o Georgia, gwlad lle buont yn byw ers rhai misoedd yn sgil gwaith Ann fel Pennaeth Gwlad cwmni ynni BP yno. Tan yr wythnos ddiwethaf honno oedd y ddiweddaraf mewn rhes o swyddi difyr y bu Ann yn eu cyflawni ar draws y byd.

Wythnos yn ôl cyhoeddwyd ei bod hi wedi'i phenodi'n Bennaeth Gweithrediadau Cwmni Lightsource BP, cwmni solar mwyaf Prydain ac Ewrop. Mae'n gwmni arloesol sydd â'r nod o gynhyrchu 10GW o ynni solar erbyn 2023. Bydd y gwaith yn mynd ag Ann yn rheolaidd i swyddfa Lightsource yn Llundain. Ond o'i chartref yng Nghricieth y bydd hi'n gweithio fel rheol, ac yno hefyd y bydd y teulu'n bwrw gwreiddiau i Rhianwen ac Isla a hynny wedi blynyddoedd o fyw a gweithio yng Ngogledd America, ar y môr mawr ac ar gyfandir Ewrop.

Graddiodd Ann yn Feistr mewn Ffiseg o Brifysgol Rhydychen, ac fel myfyrwraig bu'n gweithio i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Portsmouth. Roedd hi'n awyddus i bontio o fyd Ffiseg i beirianneg a chan fod BP yn un o'r cwmnïau oedd yn derbyn graddedigion Ffiseg, ymgeisiodd am gyfleoedd *intern* yn y cwmni a llwyddo yn 2004. Roedd ganddi ddiddordeb penodol yng



***Ann Davies Lumsden***

ngwaith y cwmni mewn datblygu egni adnewyddadwy.

Wedi graddio derbyniodd swydd gyda'r cwmni yn Aberdeen cyn symud i weithio ar brosiect ym meysydd nwy Calgary yng Nghanada, a dychwelyd i'r Alban wedyn i weithio ym môr gwyllt yr Iwerydd i'r gorllewin o Ynysoedd Shetland. Tra'n gweithio ar y môr cyfarfu â Jim, oedd hefyd yn beiriannydd i BP, ac yn Aberdeen y ganed eu merch hynaf, Rhianwen yn 2011. Dyrchafwyd Ann i swydd Uwch Beiriannydd a olygai symud ymlaen i weithio ar brosiectau ym Môr y Gogledd cyn symud wedyn i rôl fel arweinydd yn Norwy, lle ganed ei hail ferch Isla yn 2015.

Gyda hanner cant o staff dan ei hadain cafodd fwy o flas ar fusnes BP yn y swydd arweinyddol, ac o Norwy newidiodd gyfeiriad a mudo i Lundain yn 2016 i weithio i Brif Swyddog Cyllid y cwmni. Roedd hwn yn gyfnod heriol i BP gyda phris olew wedi gostwng i $30 y gasgen ond mwynhaodd Ann yr her o wneud y cwmni'n fwy effeithlon. Yn ôl i'r maes wedyn a her newydd yn Azerbaijan i weithio ar un o brosiectau mwya'r byd y tu hwnt i'r maes milwrol, sef cyflenwi nwy i Ewrop drwy bibell dros 3000 cilometr o hyd o'r Môr Caspian i'r Eidal. Treuliodd ddwy flynedd yn gweithio ar y cynllun hwn i geisio cwrdd â'r galw Ewropeaidd am nwy, cyn symud eto a hynny i Georgia y tro hwn. Pennaeth Gwlad oedd teitl ei swydd yno, ac roedd yn cydweithio gyda Phrif Weinidog a Gweinidogion Georgia ar faterion BP yn y wlad gan gynnwys ymateb i effaith y Cofid-19.

Bydd cyfoedion Ann yn ei chofio fel disgybl disglair yn ysgolion Treferthyr ac Eifionydd. Ei huchelgais bryd hynny oedd bod yn ofodwraig a thra'r oeddent yn ddisgyblion yn Ysgol Eifionydd llwyddodd hi a'i ffrind, Einir, i gyrraedd brig cystadleuaeth genedlaethol *Tomorrow's World*.

Yn ysbryd ei hangerdd am y gofod anelu am y lleuad ydi ei harwyddair – 'Os ti'n breuddwydio'n fawr, fedri di ddim cyflawni llai na hynny'. Nid bod Ann yn un i frolio'r fath bethau. Mae hi'n gymeriad diymhongar sy'n awyddus i wneud ei gorau i wella'i hun, i wella'r cwmni ac i wella'r byd.

Croeso cynnes iawn i ti a'r teulu yn ôl i'r fro. Rwy'n siwr bod dy rieni, Marian a Dafydd, Newsday yn falch o'ch cael yma.

***Naomi Jones***


**Belio a Lapio Byrnau Mawr Rotospeicio gyda Thractor a Pheiriant Torri Gwrychoedd**

Cysylltwch ag

**Erfyl Lloyd**

CASTELLCOED
CHWILOG



Ffôn:
**(01766) 810 396**

# Teulu Mawr



TYBED oes gan unrhyw un o ddarllenwyr Y Ffynnon syniad pwy ydi aelodau'r teulu mawr sydd yn y llun yma, neu ymhle y tynnwyd o. Mae'r llun yn rhan o gasgliad y Llyfrgell Genedlaethol ond yr unig wybodaeth amdano ydi mai llun teulu mawr o Chwilog a cheffyl ydi o! Neges glir i ni y dylem ysgrifennu ar gefn pob llun (neu ar y cyfrifiadur erbyn hyn) pwy sydd ynddo a phryd ac yn lle y tynnwyd o. Gair i gall. Anfonwch air os oes gennych syniad.

## Arwydd Gobaith Hafod Ynysgain




FEDRWCH chi ddim methu'r arwydd mawr lliwgar hwn sy'n y cae o dan Tŷ Newydd ar y lôn bost rhwng Llanystumdwy a Chricieth. Gwaith arbennig Iori a Marged Siôn, Hafod Ynysgain ydi o gyda chydig o help gan Dad a Mam.

# Cystadleuaeth Y Ffynnon

FEL y soniwyd ddeufis yn ôl mae'r Ffynnon yn falch o gael cyhoeddi y byddwn yn cynnal cystadleuaeth er mwyn ceisio annog cyfranwyr o bob oed i ysgrifennu i'n papur. Y beirniad y tro hwn fydd Margiad Roberts, un o golofnwyr y Ffynnon ac sydd wrth gwrs yn enedigol o fferm Bryn Efail Isaf.

Fel arfer bydd yna ddwy gystadleuaeth – un ar gyfer y rhai dan 19 oed a'r llall yn Agored – sef ysgrifennu erthygl heb fod yn fwy na 500 gair a fyddai'n addas i'w chyhoeddi yn y Ffynnon.

Y wobr ar gyfer y ddwy adran fydd Tlws Coffa Elis Gwyn a Wil Sam – tlws a gynigir gan y Ffynnon bob dwy flynedd er cof am ddau a wnaeth gyfraniad amhrisiadwy i'r papur – ynghyd â gwobr ariannol.

Os oes arnoch awydd cystadlu anfonwch eich cynigion i Margaret Hughes, Bryn Dyfnog, Cricieth LL52 0RR neu dyfnog@gmail.com. Does gennym ddim syniad pryd y bydd yn bosibl i ni anrhydeddu enillwyr ond â chymaint ohonom ag amser ar ein dwylo y dyddiau hyn, pam na rowch chi gynnig arni? Bydd pob ymgais yn cael ei chadw nes y cawn gyfle i drefnu'n iawn a chyflwynir y gwobrau yn ystod y gweithgareddau a gynhelir yn Neuadd Llanystumdwy i gofio pen-blwydd Wil Sam yn gant oed. Bydd gwybodaeth am hyn yn ymddangos pan fydd popeth fymryn yn fwy sefydlog eto.

GARETH LEWIS JONES
ADEILADWR
Ymgymerir â phob math o waith adeiladu
ESTYNIADAU • PLASTRO
TRAWSNEWID ADEILADAU
GOSOD A THRWSIO TOEAU
GWAITH CARTHFFOSIAETH
(01766) 810 233

# A MANAG AUR

DYMA atebion y 'Pos Awyr a'r Gofod' a ymddangosodd yn rhifyn Ebrill ar y we: 1 Cymylau Glaw, 2 Lleuad Newydd, 3 Planed Mawrth, 4 Bwa Enfys, 5 Diffyg ar yr Haul, 6 Llwybr Llaethog, 7 Seren Wib, 8 Seren y Gogledd, 9 Lleuad Fedi, 10 Seren Gynffon.

Wrth gwrs, dwn i ddim faint o ffyddloniaid y pos gafodd fynediad i'r Ffynnon ar y we a rhoi cynnig ar ddatrys yr anagramau, ond gobeithio i chi'r rhai a fentrodd gael hwyl arni.

Yn ystod y cyfnod afreal a chaethiwus yma mae llawer iawn ohonom yn dibynnu ar y cyfryngau torfol am y newyddion diweddaraf bob dydd. Un o'r cyfryngau hynny yw'r papurau newyddion. Mae'r pos y tro yma yn ddeg o eitemau a phethau y disgwyliech eu gweld mewn papurau dyddiol.

*Diystyrwch bob atalnodiad.*

*Cofiwch mai un llythyren yw 'ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th'.*

******Gair o eglurhad ******

Tra pery'r trefniant newydd yma o gynhyrchu'r Ffynnon yn ddigidol ar y we ni fyddwn yn ystyried pos 'A Manag Aur' fel cystadleuaeth nes daw'r rhifynnau papur yn ôl. Er lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma gofynnir i chi'n garedig ***i beidio*** ag anfon atebion fel arfer mewn ebost na thrwy'r post. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y pos yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i'ch diddori tra'n hunan ynysu neu'n dioddef y caethiwo! Cewch yr atebion yn rhifyn y mis nesaf. Cadwch yn ddiogel ac yn iach.

## Pos Papur Newydd

1. O DDIWYD DDYN Y NE *(8,1,3)*

_ _ _ _ _ _ _ _   _   _ _ _

2. TUA LETHR Y DYLLUAN *(7,7)*

_ _ _ _ _ _ _   _ _ _ _ _ _ _

3. NES NAD BARUS *(5,6)*

_ _ _ _ _   _ _ _ _ _ _

4. DEUNAW AP *(8)*

_ _ _ _ _ _ _ _

5. PORA O SACHAU REIS *(5,1,8)*

_ _ _ _ _   _   _ _ _ _ _ _ _ _

6. O GOFFA FFURAT *(10)*

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _

7. LOL Y GOGYDD *(9)*

_ _ _ _ _ _ _ _ _

8. DOLERI AT EU DA *(6,1,5)*

_ _ _ _ _ _   _   _ _ _ _ _

9. A DECHRA'N AWR NOA *(5,8)*

_ _ _ _ _   _ _ _ _ _ _ _ _

10. A RHWYGODD TY'N-Y-GLO *(9,5)*

_ _ _ _ _ _ _ _ _   _ _ _ _ _

WONDERLING TRAVEL
12 Y Maes : Pwllheli
Gwynedd LL53 5HD
01758 703 194
sales@wonderlingtravel.co.uk
www.wonderlingtravel.co.uk

E. F. & E. O. WILLIAMS a'u meibion
Ymgymerwr Amaethyddol a Chario
Chwalu Calch a Llwch
Profi Pridd di-dâl • Torri Silwair a Phorfa
Cyflenwyr Tywod, Grafael a Cherrig Traenio
Y Tŷ Gwyn, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd LL53 6AY
(01758) 720 246 neu 720 333





*Dafydd Henry yn ein harwain [Llun: Heather Stanton]*

WEL dyma adeg i gydio yn y dasg o adrodd hanes y Rhodwyr! Wrth reswm nid oes gweithgareddau'n gallu digwydd fel Clwb ac addasu sydd raid, ond yn bersonol dwi'n fy nghael fy hun yn cerdded yn amlach, am gyfnodau byrrach ac yn llawer llawer nes at adra. O weld faint sy'n pasio'r tŷ acw'n ddyddiol yn unigolion, cyplau a theuluoedd ifanc efallai fod cerdded wedi dod yn rhan ddyddiol o drefn bywyd i lawer mwy o bobl. Ys gwn i wnaiff hynny barhau pan godir y cyfyngiadau?

Yn naturiol dwi'n gweld colli'r teithiau hirach, ehangder gorwelion yr uchelfannau, y gwmnïaeth a'r ehangu gorwelion deallusol a ddaw o godi ambell i ffaith neu hanesyn bach difyr ar y ffordd.

Ar daith ddiweddar y clywais gyntaf am Hywel y Fwyall, ac am adra wedyn i bori ar y we i ddysgu mwy amdano. Wedi ei fagu ym Mron y Foel, Ystumllyn ganwyd Hywel ap Gruffydd i deulu bonedd. Ond heb fod yn etifedd cafodd ei hun yn cynorthwyo Edward III yn ei ryfeloedd yn Ffrainc. Gwnaeth gymaint o argraff yno nes iddo gael ei urddo'n farchog oddeutu 1346 – yn wir, gwnaeth y fath argraff fel y gorchymynnwyd iddo gael lle anrhydeddus ar y bwrdd mewn gwledd, gan osod bwyd o'i flaen a rannwyd wedyn i'r tlodion! Yn ôl y Gwyddoniadur dywed Syr John Wyn o Wydir i'r arfer seremonïol hwn barhau tan oes Elizabeth.

Bu Syr Hywel yn ddigon ffodus i oroesi ei frwydrau a dychwelyd i'w fro enedigol. Fel arwydd o ddiolch gan Edward cafodd nifer o swyddi proffidiol gan gynnwys dod yn Gwnstabl Castell Cricieth yn 1359. Roedd honno'n swydd mor bwysig fel bod cofnodion wedi goroesi o enwau'r holl gwnstabliaid rhwng 1284 ac ymweliad lluoedd Glyndŵr yn 1404. Hywel oedd y cyntaf i ddefnyddio'r 'ap' i nodi ei linach; roedd y mwyafrif helaeth yn arddel '*le*' neu '*de*' – dylanwad neu dras Normanaidd, efallai.

Canodd Iolo Goch – moliannydd Sycharth, wrth gwrs – am wychder llys Hywel yn y castell a'i ddwsin llawforwyn 'yn gwau sidan glân gloywliw wrth haul belydr drwy'r gwydr gwiw'.

Rŵan, ofer yn y pen draw yw pob gwariant ar ryfel ond o leiaf roedd peth o'r ffortiwn roedd Edward yn medru rhoi ei law arno wedi ei ddargyfeirio yn ôl i Eifionydd. Cadwodd Hywel lys Cymreig, noddi beirdd a chyfrannu at gadw'r iaith yn fyw. Addasu oedd ein trefn fel cenedl yn y ganrif wedi cwymp y Llyw Olaf, a chwadl Dafydd Iwan 'da ni yma [ac wrthi] o hyd'.

Ni fydd yn syndod i ddarllenwyr y Ffynnon wybod mai gan Dafydd Henry y clywais am Hywel! Mae fy nyled i yn bersonol, a dyled y Rhodwyr, i Dafydd yn anferthol. Braint a phleser yw ceisio dilyn ôl ei droed gyda'r golofn hon, gan obeithio y cawn yn fuan eto ddilyn ôl ei droed yn fwy llythrennol.

*Diolch yn fawr i Gwynfor, un o ffyddloniaid y Rhodwyr, am gydiad yn awenau'r golofn. Edrychwn ymlaen rŵan at ei gyfraniadau yntau. Gol.*

Trwy Lŷn ac Eifionydd
**Glanhawr Simdda**
Cysylltwch ag
**Osian Williams**
ar (01758) 720 202
neu (07812) 786 035



**H. E. Hughes & Co**
Contractwyr Amaethyddol
Bron Eifion Farm, Cricieth
**Ffôn tŷ: (01766) 522 189 • Symudol: (07974) 700 804**
Rhif TAW: 862 2585 12
**Belio a lapio, Torri, chwalu a hel silwair**
**Torri gwrychoedd**
**Chwalu slyri gydag 'umbilical chord' ar wyneb y tir neu injectio**








Dylid anfon diolchiadau y dymunir eu cyhoeddi yn Y Ffynnon ynghyd â thâl o £2 at Margaret E. Jones, Bryn Siloh, Chwilog. Cydnabyddir pob cyfraniad sydd dros £2 yn y golofn 'Rhoddion'. Diolch yn fawr i bawb am bob cydweithrediad.

DYMUNA Glyn Jones, Ael-y-Drem, Pencaenewydd a'r plant ddiolch o galon i bobl yr ardal am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli priod a mam. Hoffent ddiolch yn arbennig hefyd i staff Ysbyty Bryn Beryl am eu gofal a'u caredigrwydd nodedig i Jean pan oedd yno.

DYMUNAF i, Rhian (Orsedd), Llys Padrig, Y Ffôr ddiolch yn fawr am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion hael a dderbyniais ar fy mhen-blwydd yn 60 oed. Diwrnod arbennig a pharti i'w gofio. Diolch.




ER COF tyner am Dei – gŵr annwyl iawn a hunodd 22 Mai 1999.
Er treigl amser
Erys hiraeth, atgof a chariad.
Eirian, Peryddon, Penmorfa.

ER COF annwyl am W. S. Jones (Wil Sam) a fu farw ar 15 Tachwedd 2007 ac a fyddai wedi bod yn gant oed ar 28 Mai 2020 oddi wrth Dora, Mair ac Elin a'r teulu i gyd.




| | |
|---|---|
| Sharon Morley, Llanystumdwy | £8 |
| Eirian, Peryddon, Penmorfa | £3 |
| Er cof am Wil Sam | £10 |
| Rhian Parry, Y Ffôr | £8 |

## Arwydd Gobaith Melin Llecheiddior




BU Efa Glain a Deio Celt yn brysur yn llunio'r arwydd gobeithiol hwn cyn ei osod yn ymyl Felin Llecheiddior. Da iawn chi.

**IFAN HUGHES**
**TREFNWR ANGLADDAU**
Ceiri Garage
Llanaelhaearn
**Ffôn (01758) 750 238**
*Gwasanaeth personol 24 awr y dydd*

**Canolfan Ffensio Glasfryn**
Ffordd Llanaelhaearn
**Postiau a pholion wedi'u trin**
**Rhisgl coed**
**Paneli gardd**
**Coed tân**
**Planciau o bob maint**
**Ffôn: (01758) 750 623**
Llawer peth anghyffredin yn bosib – ffoniwch i holi mwy.

Gwasanaeth **SPICK 'N' SPAN**
Amcan bris rhad ac am ddim, dim ond galwad ffôn i ffwrdd:
- Glanhau carpedi a chlustogwaith
- Glanhau swyddfeydd
- Clirio tai a glanhau
- Gofal waith adeiladau
- Torri gwellt a thrimio gwrychoedd
- Glanhau ffenestri hyd at 60 troedfedd gan gynnwys heulfannau
- Glanhau carafannau, ceir a chychod (tu mewn a thu allan)
- Eich holl anghenion glanhau
- Glanhau tai haf
- Ymgymryd â gwaith contract
- Cynnal tiroedd
- Ymgymryd a gwaith 'Pressure Washer'





Mr A J Eaglen, Uned 10, Glan y Don, Pwllheli, Gwynedd LL53 5YT
**(01758) 614 200 neu (07881) 922 938**
**www.spicknspan-services.com**
@ spicknspan_services@yahoo.co.uk

Gellwch lawrlwytho'r rhifyn hwn o'r **Ffynnon** oddi ar y wefan:
**bro.360.cymru/aelod/YFfynnon**

# Yn Gaeth yn y Gaiman

**Yn nyddiau dyrys y Coronafeirws mi glywsom yn helaeth am helbulon gwledydd eraill ledled y byd – yn Tseina, Iran, yr Eidal a Sbaen. Clywsom hefyd am Gymry yn gaeth yn Periw. Ond tybed sut mae hi wedi bod yn yr Ariannin a'r Wladfa? Esyllt Nest (o'r Ffôr yn wreiddiol ond sy'n byw yn y Gaiman ers 16 mlynedd) sy'n disgrifio pa mor llym ydi'r cyfyngiadau yn yr Ariannin a thalaith Chubut. A sut maen nhw'n dygymod.**

YN WAHANOL i chi acw yng Nghymru, gorfodwyd pawb yma yn yr Ariannin i AROS ADRA yn syth bín pan gododd y newyddion am y 'Govid Mawr'. Ac ers canol mis Mawrth mi orfodwyd teithwyr o wlad arall i hunan ynysu am bythefnos. Caewyd popeth bron – ysgolion, trafnidiaeth gyhoeddus, busnesau a siopau 'diangen' a chawsom orchymyn i aros yn ein tai oni bai ei bod yn gwbl angenrheidiol i fynd i rywle. Chawn ni ddim mynd am dro ar unrhyw gyfrif.

**SEIREN**

Mae gan bawb yma gerdyn adnabod efo rhif arno a digid olaf y rhif hwnnw sy'n penderfynu ar ba ddiwrnod gawn ni fynd i siopa yn ein mygydau – a phawb adra cyn 7.30 y nos. Mae seiren yn sgrechian yn Nhrelew i atgoffa pobl. Uchelseinydd ar gerbyd sydd yma yn y Gaiman. Ac mae'r heddlu'n ein gwylio. Cafodd ffrind ei holi wrth deithio o'i gartref i fynd â bwyd i'r lloi, gyda'r heddlu'n ei ddilyn i'r cae a'i hebrwng yn ôl adra wedyn! Mae athrawon, rhieni a phlant wedi ffwndro'n lân wrth geisio ymgodymu â thechnoleg gyfrifiadurol ddieithr. Dydi'r ysgolion ddim wedi arfer defnyddio fawr ddim ar y dechnoleg fodern ac felly mae ceisio rhithaddysgu yn her. Ond mae 'na dai heb gyfrifiaduron; mae 'na dai heb gyswllt gwe; mae 'na (chydig bach o) dai heb ffonau symudol. Trueni na fyddai'r Arlywydd wedi rhoi gorchymyn i ni ddiffodd y rhyngrwyd ac annog ein plant i ddarllen ac ymarfer eu tablau!


**GÊM MABON**

Yma yn ein tŷ ni mae Mabon ac Idris yn cwblhau gwaith ysgol bob bore. Seibiant ar ôl cinio. Allan wedyn i wneud campau ar y ffrâm ddringo yn yr ardd neu ddangos pa mor dda ydyn nhw am sgipio o'u cymharu â'u mam! Rydan ni'n mwynhau chwarae gemau bwrdd hefyd ac mi aeth Mabon ati i greu un yn seiliedig ar ein hoff raglen Gymraeg, *Rownd a Rownd* (diolch byth bod honno'n cael ei rhyddhau gan S4C Rhyngwladol). Bu'r hogiau yn eu tro yn ymweld â'r sèt ym Mhorthaethwy pan oeddem yng Nghymru a chawsant fod yn 'ecstras', felly mae'r rhaglen yn boblogaidd iawn yn ein tŷ ni!


Yn ôl ymchwil gan yr Imperial College yn Llundain mae'r Ariannin ymysg y gwledydd sydd wedi rhoi'r gorchmynion llymaf i'w thrigolion. Doedd yna'r un achos o'r feirws wedi ei brofi yn ein talaith ni, Chubut, tan rhyw fis yn ôl. Mae dau achos wedi ei gadarhau yma erbyn hyn a naw o bobl dan wyliadwraeth.

**HER A HANNER**

Yn ôl y newyddion rhyw bedair mil sy'n dioddef ohono yn yr Ariannin gyfan ac ychydig dan ddau gant wedi marw. Mi soniodd yr Arlywydd rai wythnosau'n ôl y byddai cynnydd o 10% mewn tlodi yn well na chynnydd o 100,000 mewn marwolaethau. Mae'n hawdd dweud pethau o'r fath pan fo'r pantri'n llawn a'r gwely'n gynnes. Tybia rhai y bydd gan Alberto Fernandez fwy o ddilynwyr ar ôl y bennod hon yn ei arlywyddiaeth. Ond bydd y bennod nesa'n her a hanner hefyd i'r Ariannin. Tydi'r gofid gwirioneddol fawr ond megis dechrau i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth.




*Gêm 'Rownd a Rownd' Mabon*




*Rhai o gyfarwyddiadau'r gêm*



*Mabon ar sèt Rownd a Rownd*




*Idris gyda Jason (yr actor Iwan Fôn)*

# AR DRYWYDD YR ENWAU

MARGIAD BERTHAUR

## Aber, Cymer, Gofer a Diferu

DWN I'M a ydach chi wedi sylwi ond yr un bôn sydd i'r enwau ***aber***, ***cymer***, ***gofer*** a ***diferu***. Y bonyn hwnnw ydi ***bêr-*** sy'n elfen gyffredin am ddŵr a'i ystyr ydi llifo, rhedeg, dafnio, defnynnu.

Yn 'Y Gododdin', cerdd gan y bardd Aneirin o'r 6ed ganrif am frwydr waedlyd a ymladdwyd rhwng y Brythoniaid a'r Saeson yng Nghatraeth (Catterick, gogledd Lloegr heddiw) roedd gwaed yn ***'beru'***, hynny ydi yn llifo. Daw'r enw ***aber*** o ***ad*** + ***bêr*** (neu 'od-ber' yn wreiddiol). Daw ***cymer*** o ***com*** (cyd) + ***bêr***. Daw ***gofer*** o ***go*** + ***bêr***. Daw ***diferu*** o ***di-*** + ***beru.***

Ystyr ***aber*** ydi lle mae afon yn llifo allan, boed i afon fwy neu i'r môr. Ystyr ***cymer*** ydi man lle daw dwy afon (neu fwy) at ei gilydd i gydlifo. Ystyr ***gofer*** ydi gorlif neu ffrwd yn llifo drosodd o ffynnon. Ystyr ***diferu*** ydi diferion o ddŵr yn disgyn neu lifo'n araf.

Mae digonedd o enghreifftiau o'r enw ***aber*** i'w weld mewn enwau lleoedd yn yr Alban: ***Aber***deen; ***Aber***brothock; ***Aber***cairney; ***Aber***calder; ***Aber***corn; ***Aber***crombie; ***Aber***dalgie; ***Aber***dour; ***Aber***feldy; ***Aber***foyle; ***Aber***geldie; ***Aber***lady; ***Aber***lemno; ***Aber***lour; ***Aber***milk; ***Aber***nethy; ***Aber***tarff; ***Aber***uchill; ***Aber***uthven.

Tystiolaeth bendant mai Brythoneg oedd iaith yr Alban cyn i'r Gwyddelod fewnfudo yno (o'r 5ed ganrif ymlaen) a dod â'r iaith Wyddeleg hefo nhw a ddatblygodd wedyn yn Aeleg yr Alban. Dyna sy'n egluro pam y daeth yr enw Gaeleg ***inver*** i gymryd lle'r ***aber*** Brythonig mewn enwau lleoedd yno ac mae llawer mwy o enwau lleoedd yn cynnwys yr elfen ***Inver*** nag ***aber*** yn yr Alban erbyn heddiw: In***ber*** oedd yr enw mewn Gwyddeleg > Inbher > ***inver*** ac mae i'w weld yn yr enwau: ***Inver***ness (lle llifa'r Afon Ness o'r loch); ***Inver***ary; ***Inver***ewe (lle llifa'r afon Ewe i Loch Ewe); ***Inver***garry; ***Inver***gordon; ***Inver***gowrie; ***Inver***oran; ***Inver***urie (lle llifa'r afon Urie i'r afon Don); ***Inver***esk.

Ceir enghraifft o'r enw ***cymer*** hefyd yn enw dinas ***Kemper***, Llydaw, gwlad arall lle siaredir iaith Frythoneg, y Llydaweg – ac mae tair afon yn cymeru yn Kemper! Yno hefyd gwelir enghreifftiau o'r enw ***aber*** yn ***Aber Benoit***, ***Aber Wrac'h*** ac ***Aber Ildut***.

***Gofer***. Mae tŷ ar droed y Rhiw ym Mryncroes drws nesa i Bwlch y Ffordd o'r enw ***Tan y Gofer***.

Tydw i ddim yn meddwl fod digon o bobol heddiw yn gwybod nac yn sylweddoli mai Brythoneg (Cymraeg hynafol) oedd iaith Prydain gyfan cyn i'r Rhufeiniaid ddod yma i reoli yn 43 OC. A phan adawon nhw ar ôl tair canrif a hanner (yn 410 OC) roedd Brythoneg yn parhau i fod yn brif iaith Prydain hyd nes i'r mewnlifiad Seisnig o Ogledd Ddwyrain Ewrop ddechrau dylifo yma ar ôl 410 OC. Ac mae'r dylifiad hwnnw bellach wedi cyrraedd ei derfyn sef arfordir gorllewin Cymru, ar ei hyd o Fôn i Benfro ac yn boddi'r Gymraeg.

Ond ar hyn o bryd rydan ni'n dal â'n ffroena uwchben y dŵr ac mae pawb sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru heddiw yn parhau i siarad iaith sydd wedi ei siarad yma yn ddi-dor ers ymhell cyn i'r Rhufeiniaid ddod yma yn 43 OC. Rhyfeddol ta be?! Basgeg (iaith Gwlad y Basg) a Barber (iaith a siaredir yng ngogledd ddwyrain Algeria) ydi'r unig ddwy iaith arall a lwyddodd, er gwaetha'r Ymerodraeth Rufeinig Orllewinol, i gadw'u hieithoedd cynhenid hwythau'n fyw.







MENTER Y PLU
LLANYSTUMDWY

DERBYNIODD y Fenter ddau grant yn ystod y mis a hynny'n benodol i gynorthwyo gyda chostau'r adeilad tra mae'r dafarn ar gau. Daeth y cyntaf gan Gronfa Coronafeirws Cymru a'r ail o Gronfa Wledig y Tywysog. £750 ydi gwerth y ddau grant a byddant yn gymorth i'r Fenter ddal ati yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Sôn am ddal ati, bydd cwis misol y Fenter yn cael ei atgyfodi ar-lein ar 27 Mai. Byddwn yn 'cwrdd' drwy Zoom am 7.45 a'r cwestiwn cyntaf am 8.00. Aled Evans fydd y cwisfeistr a Miriam Williams fydd yng ngofal y dechnoleg! Os am ymuno yn yr hwyl ebostiwch menteryplu@gmail.com gyda'ch manylion Zoom. Os cewch unrhyw broblemau neu gwestiynau technegol anfonwch neges at y Fenter neu cysylltwch yn uniongyrchol efo Miriam – miriam.wms@hotmail.co.uk



*Simon Davies-Hughes yn papuro cyntedd y Plu (llun: Nan Davies-Hughes)*

Mae'r gwaith caled yn parhau yn y dafarn ei hun hefyd. Bu Myfanwy'n rhoi gweddnewidiad i rai o'r stafelloedd, a bellach mae Simon wedi rhoi coron o bapur wal ar y cyntedd. 'Dan ni'n edrych ymlaen yn fawr i weld y gweddnewidiad!

Diolch yn fawr i'r pentrefwyr sydd wedi bod yn cysylltu gydag archebion neges a phresgripsiwn. Mae'n braf gweld y gymuned yn tynnu ynghyd. Cysylltwch â Naomi ar 07972 145474 os am gael cymorth dros yr wythnosau nesaf.

Gan bwyll bawb; fe welwn ni chi'n fuan!

***Criw'r Fenter***

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**


Ciropodi • Podiatri
**Iola Roberts**
P.G.Dip, D.Pod.M, MCPod
HCPC Cofrestredig
*Galwadau i'r Cartref*
Symudol:
**(07771) 278 633**

CONTRACTWYR TRYDANOL
**Hughes a Williams**
**Domestig – Masnachol – Diwydiannol**
**Galwadau Brys – Profi tai a nwyddau**
Dafydd Hughes **(07813) 008 479**
Arwel Williams **(07789) 300 525**
Iocws, Pwllheli LL53 5TY
**(01758) 612 621 dafydd@iocws.com**
*Amcanbrisio am ddim*

**Pritchard a Griffiths Cyf.**
SEFYDLWYD 1936 ESTABLISHED
*Trefnwyr Angladdau*
- Gofal Personol 24 awr
- Capel Gorffwys
- Cynlluniau Angladd Rhagdaledig

Heol Dulyn, Tremadog
**Ffôn: (01766) 512 091**
post@pritchardgriffiths.co.uk



SILS FFENESTRI
CARREG AELWYD
CERRIG BEDDI
LLORIAU
PATIO
A LLAWER MWY ...
Cysylltwch am fanylion
(01766) 810 659
(07810) 340 628
lldslate@btinternet.com



LLECHI LLD SLATE CYF
www.lldslate.com

Bennett Smith – cyfreithwyr
**Ydych chi'n wynebu ysgariad neu wahaniad?**
Cysylltwch â Karen Bennett neu Adrian Altman am gyngor cyfreithiol yn ymwneud â phob math o broblemau cyfreithiol teuluol yn cynnwys taliadau terfynol, gorchmynion ad-drefnu eiddo, ysgariad a phlant.
**Mae Bennett Smith yn barod i'ch helpu gyda'ch anghenion cyfreithiol.**
Ffôn (01248) 679 000
Ebost: mail@bennettsmith.co.uk
www.bennettsmith.co.uk
Garth Bach, Nant y Garth, Felinheli, Gwynedd LL56 4QF
*Awdurdodir a rheoleiddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr*

# Pws pwy?



MAE cath ddieithr wedi ymgartrefu yn Eithinog, Llanystumdwy ac yn cael lle da yno yn ôl pob golwg, ond tybed pwy piau pws? Os ydych yn ei hadnabod cysylltwch â Margiad Elias ar 01766 522937 os gwelwch yn dda, er mwyn trefnu i'r gath gael dychwelyd at ei pherchennog.

@YFfynnon

YFfynnon



**GWNÏO BOB MATH**

**CHWILOG LL53 6PS**

Pob mathau o waith gwnïo

- Addasiadau
- Trwsio dillad
- Llenni
- Bleindiau
- Clustogau
- Dodrefn meddal
- Carafannau
- Cadeiriau

Cysylltwch â Sarah **(07779) 789 541**
ebost: sarahehughes66@gmail.com


**Caffi Cedron**

**Pysgotfa Eisteddfa, Pentrefelin**

**Brecwast, byrbrydau, paned a chacen, prydau poeth**
**Bwyd cartref blasus mewn awyrgylch braf ar lan y llyn**

Croeso i feicwyr a chŵn gyda digon o le parcio di-dâl

Mae Tom a Jane a'r criw yn edrych ymlaen
at eich croesawu i gyd eto
pan fyddwn yn ailagor

**Ffôn: (07753) 818 414 / (01766) 522 148**
**www.eisteddfa-fisheries.com**
**ebost: post@eisteddfa-fisheries.com**



**R. D. Williams Cyf**
Brocer Yswiriant

**4 Thomas Buildings**
**Lôn Dywod, Pwllheli**
**LL53 5HH**

**Ffôn: (01758) 612 469**
**Ebost: rd.williams@btconnect.com**

Am anghenion yswiriant o bob math, yn cynnwys moduron, tai neu fusnes, cysylltwch â ni i gael prisiau neu gyngor personol a lleol
*Awdurdodir a rheoleiddir gan Awdurdod Gwasanaethau Ariannol*



**R. L. JAMES**
**Peiriannydd Gwresogi**

**Rhodri1@hotmail.com**
**(07852) 156 064**



Trin Coed
TY'N LLWYN
Tree Services

- **Ffensio**
- **Gwasanaeth hollti symudol**
- **Galwad allan 24 awr mewn argyfwng**

Richard Hubbard, Ty'n Llwyn, Llannor, Pwllheli, Gwynedd LL53 5UG

**Ffôn: (01758) 612 608 • Symudol: (07807) 213 527**

# Cofio Cyfraniad Cricieth

ERS mis Ionawr mae Cyngor y Dref wedi gweithio ar brosiect gyda'r gymuned i baratoi ar gyfer cofio 75 mlynedd ers Diwrnod VE, 8 Mai. O ganlyniad i'r pellhau cymdeithasol oherwydd COVID-19 mae'r gweithgareddau cymunedol i gynnwys te prynhawn yn y Neuadd Goffa, dadorchuddio wal o babi coch wedi'u gweu a'u crosio, ac arddangosfa ar y Stryd Fawr wedi'u gohirio. Mae dros 2,000 ohonynt wedi'u derbyn ac addewid am 1,000 arall. Fodd bynnag fe fydd fideo ar gael ar YouTube Cricieth Life yn cofnodi'r cyflawniadau.

Cynhaliodd un o'n Cynghorwyr, Ffion Gwyn, weithdai gyda disgyblion Ysgol Treferthyr drwy gyfuno celf a drama. Creodd y plant animeiddiad byr o symbolau ac arwyddion llaw drwy ddefnyddio menig coch. Myfyriwyd ar y digwyddiadau cyn, yn ystod ac ar ôl y rhyfel. Recordiwyd cyfres o ffotograffau yn delweddu undod, gwrthdaro, colled a chariad, a chyfunwyd hwy mewn ffilm wedi ei hanimeiddio'n bwerus. Bu'r plant ieuengaf yn creu murlun mawr o enfysau gobaith y medrir ei ddefnyddio fel gorchudd byrddau yn ystod y te prynhawn, yn debyg i'r partïon a gynhaliwyd ar ddiwrnod VE. Llofnodwyd y tywel bwrdd gan y plant fel cofnod parhaol o'u cyfraniad ac fe'i defnyddir yn y Neuadd Goffa i gofio cyfraniad Cricieth yn ystod y rhyfel.

Yn ogystal â'r arddangosfa prynwyd mewn ocsiwn ar-lein lyfr braslunio o waith Harold Pickup wedi'i ddyddio 1945. Nid oes llawer o wybodaeth am hanes y perchennog, ond credir ei fod yn hanu o ardal Swydd Efrog. Fe gofnododd ei ymweliad â Chricieth mewn cyfres o frasluniau dyfrlliw a phensil. Mae'n cofnodi golygfeydd o'r ardal o gwmpas ac yn cynnwys cerdyn post wedi'i beintio i'w fam, sy'n cofnodi ei gyfeiriad, Plas Meini. Mae'r llyfr brasluniau yn gorffen gyda phortreadau sensitif o filwyr yr Ail Ryfel Byd a chartwnau o unigolion enwog y cyfnod.

Ysbrydolodd yr argyfwng presennol a'r llyfr braslunio gan Harold Pickup, sy'n cynnwys lluniau dyfrlliw a brasluniau o filwyr dienw, Ffion Gwyn i beintio portread meddylgar 'Ffenest/Window' i nodi'r achlysur. Mae'n ganlyniad i'n hamseroedd rhyfedd o bellhau cymdeithasol ac ynysu. Ond mae hefyd yn ein cludo'n ôl i'r Ail Ryfel Byd ac i gofio am y rhai a gollwyd ac sydd â'u henwau wedi'u cofnodi yn y Neuadd Goffa.

Adeiladwyd y Neuadd Goffa ar ôl y Rhyfel Mawr ac mae enwau'r rhai a gollwyd ar ddau o baneli derw yn y lobi. Ychwanegwyd panel gydag enwau'r 22 o ddynion y dref a laddwyd yn yr Ail Ryfel Byd yn ogystal. Mae ymchwil pellach wedi darganfod pump o enwau ychwanegol. Nid yw'r pedwar dyn ac un fenyw sydd â chysylltiadau gyda'r gymuned wedi'u cofnodi ar y panel ond byddant wedi'u cynnwys mewn bas data a ffeil a fydd ar gael i'r cyhoeddi.



***Ffenest/Window (Ffion Gwyn)***

Dyma a ddywedodd y Cynghorydd Robert Cadwaladr, Cadeirydd y Cyngor Tref: 'Yn ystod dyddiau du 1939–45 fe wnaeth cymunedau drwy'r wlad dynnu at ei gilydd, gan gynnwys wrth gwrs ein cymuned ni. Rydym eto'n wynebu amseroedd anodd ac mae'n galonogol profi'r un peth. Pan fydd hyn drosodd a bywyd normal yn dychwelyd rhaid i ni ymdrechu i gadw'r ysbryd yma.'

***Dr Catrin Jones***
01766 523294 /07780 886512

Gellwch lawrlwytho'r rhifyn hwn o'r **Ffynnon** oddi ar y wefan:

**bro.360.cymru/aelod/YFfynnon**

# Yr hogyn o Fynytho yn 95 oed

**Yn ddiweddar disgrifiwyd agwedd hynafgwr o dde Lloegr a lwyddodd i godi £32 miliwn i'r Gwasanaeth Iechyd trwy gerdded o amgylch ei dŷ fel 'esiampl i ni i gyd', ac ni ellir peidio ag edmygu ei ddycnwch a'i gymwynasgarwch. Mae o'n dipyn o foi ac yntau erbyn hyn yn gant oed. Yma yn Eifionydd y mae yna arwr arall, fymryn yn wahanol i Capten Tom, newydd ddathlu ei ben-blwydd yntau'n 95 mlwydd oed. I'r rhai ohonom sy'n gweithio ar y Ffynnon o fis i fis ac i'w gydnabod ledled Cymru a thu hwnt mae Dyfed Evans, Gwyddfor, Pencaenewydd hefyd yn esiampl i ni i gyd. Go brin y bydd y Frenhines yn ei wneud yn Gyrnol ac mae hi'n annhebygol y bydd yr RAF yn hedfan yn un swydd gwaith uwchben ei gartref, ond i ni sy'n ei nabod mae'r cyfarchion i Dyfed Evans, sydd yntau'n 'dipyn o foi', yr un mor gynnes. Pen-blwydd hapus iawn i chi, Dyfed!**

**Dyma'i gyfraniad y mis hwn. Mwynhewch.**



*Ar riniog Gwyddfor ddiwedd Ebrill leni. Tynnwyd y llun o bellter o ddwy fetr!*

TYBED a fuoch chi erioed yn meddwl am ysgrifennu eich hunangofiant? Pe bawn i wedi cael y fath syniad buaswn wedi dechrau cadw dyddiadur rhag blaen. Rwyf newydd ddathlu fy mhen-blwydd yn bymtheg a phedwar ugain ac mae bwrw golwg dros droeon yr yrfa braidd yn anodd heb y canllawiau!

Ond gan na chaf droi allan i holi neb arall wyneb yn wyneb fel y gwneuthum am gynifer o flynyddoedd yn ddyn papur newydd does dim llawer o ddewis ond sgwennu rhyw bwt amdanaf fy hun. Pwy fydd elwach ar hynny sy'n gwestiwn arall. Ond fe leinw rhyw gongl o leiaf.

Roeddwn i'n bump a thri mis yn dechrau'r ysgol yn nosbarth y 'babies' yn ysgol Foel Gron, Mynytho. Ben, o'r drws nesaf ond un, dair blynedd yn hŷn na mi, a'm hebryngodd yno – a syrthiais mewn cariad yn syth bin efo'r athrawes Miss Jennie Thomas o Drefor. Dyma'r unig un – Mrs Jones, Brongadair ar ôl priodi – a gofiaf, yn ddiweddarach, yn mynd â'i brechdanau a'i fflasg efo hi i'w sedd ym mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol a glynu yno hyd ddiwedd y sesiwn.

Bydd llawer yn cofio Ben, fy hebryngwr cynnar a chyfaill oes, yn yrrwr i'r Crosville ac ar ôl ymddeol yn cerdded siopau'r dref efo'i fêt Ifor Trip.

Yn ystod fy chwe blynedd yn Ysgol Foel Gron cawsom fwy nag un te parti ym Mhlas Nanhoron, un ohonynt yn nodedig o fawr i ddathlu rhyw jiwbili neu'i gilydd yn 1935. Y peth amlycaf a gofiaf yw gweld y sgweiar yn ffenestr un o'r llofftydd yn sgeipio ceiniogau efo rhaw i'r ardd oedd islaw a ninnau yn rhuthro amdanynt, dillad gorau neu beidio. Bargen brin oedd ceiniog. Roedd dwy yn drysor. Torrais y mwg wrth nôl diod o'r rhaeadr bychan yng nghae Bodlondeb ar y ffordd adref.

Erbyn 1940 roeddwn wedi bod yn Ysgol Botwnnog am bedair blynedd. Traethais ddigon am hynny yng nghyfrol dathlu pedwar can mlynedd yr ysgol. Un peth anghyffredin reit siŵr yw yr âi Hughes Thomas, y prifathro, â ni bob cam i lyn y Faerdre i sglefrio, ac un o'r bendithion pennaf oedd cael mynd i'r ardd at Prys Williams i osgoi merched y Bangor Trio. Yn rhyfedd iawn yn nhreigl amser deuthum i fwynhau gwrando ar ffidil.

Gadewais yr ysgol yn bymtheg oed ar ôl arholiad y Senior a chael gwaith yn cario allan mewn siop yn Llanbedrog am goron yr wythnos a'm cinio. Mwynheais y crwydro o dŷ i dŷ yn hel straeon yn ogystal ag archebion i'r siop a chael te yma ac acw. Mynnai un hen wraig gael te rhydd. Chymerai hi ddim paced dros ei chrogi. Ond roedd hi'n amser rhyfel a dim te rhydd i'w gael. Felly, doedd dim amdani ond tywallt cynnwys y paced i gwdyn papur llwyd ac fe blesiai hwnnw yn iawn. Un o anfanteision y swydd oedd lygio'r beic carier i fyny allt Cerrig Bychain ar ddiwedd y dydd. Peidiwch â sôn wrth neb ond ar ddydd Mercher pan weithiwn hanner diwrnod arhoswn nes deuai lori Dic Fantol, John Talafon neu William John Penrallt ar eu ffordd o'r dre a manteisio ar gwtyn.




*Yn ddeunaw oed ac yn aelod o'r Llynges*

Erbyn 1945 buaswn yn Sri Lanka (Ceylon ar y map bryd hynny) yn aelod o'r Llynges ers dwy flynedd. Y diwrnod y cychwynnais am Skegness (Butlins a ailfedyddiwyd yn HMS Royal Arthur) nid oeddwn erioed wedi bod mewn trên. Yn wir, y Rhyl ar drip Ysgol Sul fu fy siwrnai bellaf oddi cartref cyn hynny.


Yn Skegness a Davenport y bu miri gorymdeithio a saethu, diffodd tân ac ati cyn symud gyda rhyw ugain arall i Dundee am naw mis i'n hyfforddi sut i dderbyn ac anfon negesau mewn Morse Code. Yr athro oedd hynafgwr bonheddig o Sgotyn o'r enw Mr Matthews a fu cyn hynny yn swyddog yn adran gyfathrebu Swyddfa'r Post.

A dyma fi bellach yn delegraffydd ac ar fy ffordd i Negombo, ddeng milltir o Colombo, prif ddinas Sri Lanka. Yno y dathlais fy mhen-blwydd yn un ar hugain oed a'm trochi â phwcedeidiau o ddŵr. Yno hefyd y cefais y cyfle cyntaf i yrru cerbyd pan ddeuthum i adnabod Alun Lewis o Aberdyfi a oedd yn sioffer i brif swyddog yr orsaf. [Roedd Cymdeithas Gymraeg groesawgar yn Colombo. Awn yno'n rheolaidd oni bai fod gwyliadwriaeth gyda'r nos yn cyd-daro.] Ymunais â'r côr hefyd er na fûm erioed fawr o ganwr. Alun Williams (dyn y BBC wedyn) oedd yr arweinydd. Yn Colombo gwelais y ffilm *How Green Was My Valley* saith noson yn olynol a'i mwynhau bob tro, ond y cymhelliad pennaf i fynd i'r sinema gynifer o weithiau yr un wythnos oedd fod angladd Lloyd George ar yr un rhaglen. Cynhebrwng neu beidio hyfryd oedd gweld y dorf yn Llanystumdwy a phobl a phlant ar frigau'r coed ar lan afon Dwyfor.

Wedi fy rhyddhau o'r Llynges yn 1946 deuthum adref heb swydd i fynd iddi wrth gwrs na chrefft ond telegraffi neu gario allan. Doedd fawr o siawns gyda'r naill yng ngwlad Llŷn ac roeddwn yn rhy hen i'r llall! Bûm byliau ar y dôl, chwalu tail yn Bodwi, clirio tywod rownd y cytiau ar draeth y Borth Fawr yn Abersoch, yn bostmon dros dro yn Abersoch eto ac ym Mynytho.

Daeth gwaredigaeth i amcanu'n obeithiol am waith mwy sefydlog pan awgrymodd Caradog Jones, cymwynaswr mawr Mynytho, i mi geisio mynediad i Goleg Harlech. Bu'r cildwrn a gawswn gan Sior V1 pan ryddhawyd fi o'r Llynges yn fendithiol iawn yr adeg honno a threuliais gyfnod byr yn Harlech dan athrawiaeth y gamaliaid D. Tecwyn Lloyd a Meredydd Evans ac eraill. Ceisiodd Llydawr o'r enw Claude Jeffrenaux, mab Taldir ddysgu i mi sut i wneud blwch pensiliau mewn gwersi celf ond chafodd o fawr o lwyddiant. Prysuraf i gyfaddef nad ei fai o mo hynny.

Pan oeddwn yn Harlech gwelais hysbyseb yn y *Cymro* yn gwahodd ceisiadau am swydd gohebydd. Roedd y Golygydd John Roberts Williams yn ffrindiau mawr â Tecwyn Lloyd a Merêd a diolch am hynny. Bûm yn ohebydd i'r *Cymro* am bedair blynedd ar bymtheg nes sylweddoli fy mod yn aml yn ailsgwennu'r un stori. Yr un rhesymau a geid dros gau ysgol wledig a'r un rhesymau a glywid mewn protestiadau i'w chadw yn agored. At hynny roedd amryw o'm cydweithwyr wedi gadael i feysydd brasach y teledu.



***Yr athro hynod ddifyr yn ôl tystiolaeth ei ddisgyblion***

Dyna, fwy neu lai, paham yr ymunais â'm hen gyfaill Dic Goodman i geisio mynd i'r Coleg Normal i'n cymhwyso ein hunain yn athrawon. Er hyned oeddem yn fyfyrwyr aeddfed, yn 'over-ripe' chwedl ambell un yn gellweirus, fe'n synnwyd fel y'n derbyniwyd ni mor rasol gan y bobl ieuanc. Yno ar Gae Moch y mentrais i gae rygbi am y tro cyntaf – a'r unig dro. Nid y profiad hyfrytaf oedd cael llond eich wyneb o faw gwartheg wrth glymu yn y sgrym. Ond dyna fo, os myfyrwyr, myfyrwyr cyfartal.

Wedi gadael y Normal bûm yn athro ysgol gynradd am ugain mlynedd – pedair ohonynt ym Mhenygroes a'r gweddill yn Nhroedyrallt a Chymerau Pwllheli. Wrth feddwl am 'rhen blantos byddai dyddiadur pes cedwid yn fuddiol iawn rwan. Mae rhywun yn dueddol o anghofio gwahanol ddigwyddiadau.

Dyna lle roeddwn i ryw fore wedi bod yn cymell defnyddio ffurf gryno'r ferf – 'Cefais anrheg gan Mam', er enghraifft, yn hytrach na rhyw fratiaith fel 'gath fi' a 'geuso fi' a welid ac a glywid mor aml. Pan ofynnais i'r plant ysgrifennu sut y buasent yn dweud iddynt gerdded i'r ysgol, ysgrifennodd pawb 'Cerddais i'r ysgol' fel y disgwyliwn. Wel, pawb ond Gwyn. Yr hyn a gafwyd ganddo ef oedd 'Neuso fi gymeryd bys i'r ysgol.' Wel, y gwir a saif. Mi gofiais hynna a phwy allai anghofio'r perl o ateb a gafodd athrawes y dosbarth drws nesa pan ofynnodd i un o'r hogiau pam nad oedd wedi gwneud ei waith cartref.

'Fedrwn i ddim,' meddai.

'Pam?' gofynnodd hithau.

'Mam 'di mynd â'r beiro i Bingo Miss.'

Mae fy meiro gennyf i o hyd ond nath fi sgwennu digon bellach reit siwr.

Ymddeolodd Doris, y wraig, a oedd yn weinyddes feithrin yn Ysgol Hafod Lon, a minnau yr un diwrnod yn 1990. Mae'r tri mab erbyn hyn dros eu trigain ac yn gofalu amdanom yn dyner iawn yn y dyddiau dyrys coronafeirosaidd hyn.

Cyfrifwn ein bendithion – a chofiwn fod un metr 3.37 modfedd yn hwy na llath.

***D.E.***


**Gwasanaeth Tacsi**

**CRICIETH**

**(01766) 522 726**

Meysydd Awyr
Gorsafoedd Rheilffordd
Gwasanaeth Lleol

UNRHYW BELLTER






***Wali a Mr Picton***

YN YSTOD cyfnodau o ansicrwydd mae'r cyfarwydd yn gallu cynnig cysur mawr. Felly, ar ddechrau'r cyfnod cysgodi'n-y-cartra 'ma, mi drefnodd rhywun hir ei ben i ailddarlledu *C'mon Midffîld* bob nos Sadwrn ar S4C. Dyma'r 'straeon cyn gwely' delfrydol ar gyfer oriau tywyll ein gwanwyn hirfelyn tesog.

Mae pob Cymro neu Gymaes canol oed yn gwybod mai drama ddigri'n dilyn hynt a helynt tîm pêl-droed Bryncoch ydi *C'mon Midffîld*. Ynddi cawn ein cyflwyno i hoelion wyth y clwb: Arthur Picton, y rheolwr diamynedd a diegwyddor; Wali Tomos, y llumanwr sydd ddim llawn llathen; Tecwyn Parri, y gôl-geidwad goddefgar; George Huws, seren anwaraidd y tîm sy'n canlyn Sandra merch y rheolwr. Diolch i sgriptiau gwirioneddol ysbrydoledig Mei Jones ac Alun Ffred, a pherfformiadau argyhoeddiadol y cast, cryfder penna'r ddrama ydi'r ddeinameg anfarwol rhwng y cymeriadau bythgofiadwy yma. Mae ysfa Arthur Picton i ennill, doed â ddelo, yn landio'r clwb byth a hefyd mewn rhyw lobsgows. Wrth gwrs, mae Wali ddiniwed a George fyrbwyll yn llwyddo i wneud bob dim gan gwaith gwaeth, cyn i Tecwyn neu Sandra gyrraedd efo bwced a mop i glirio llanast pawb arall.

Dwn i'm pam ond mae 'na rwbath ofnadwy o ogleisiol am ddyn piwis yn colli'i limpyn o ganlyniad iddo'i saethu'i hun yn ei droed dro ar ôl tro. Megis y bythol-rwystredig Arthur Picton yn bloeddio 'BLYDIIIII HEEEEL!' dragywyddol, wele Basil Fawlty yn *Fawlty Towers* yn diawlio ac yn colbio'i gar efo brigyn pan fo hwnnw'n gwrthod tanio, neu Victor Meldrew'n gwichian 'IIIII don't beliiiiiiieve it!' pan fo anffawd arall yn dod i'w ran yn *One Foot in the Grave*.

Nid gor-ddeud ydi honni bod Midffîld yn llwyr haeddu'i lle ymysg goreuon y *genre* mewn unrhyw iaith. Er y basa rhannu'r campwaith yma gyda gweddill y byd yn help i newid meddyliau'r rheiny sy'n meddwl amdanom ni'r Cymry fel rhyw hil bach israddol, fasa Midffîld byth yn trosi'n rhwydd i iaith arall gan fod natur yr hiwmor mor Gymraeg a Chymreig. Un peth ydi nabod gwead cywrain y plotiau neu berfformiadau celfydd yr actorion, peth arall ydi gwerthfawrogi holl gyfoeth y gyfeiriadaeth gymdeithasol a diwylliannol sy'n rhan annatod o'r cyfresi. Mi fasa hi'n anodd iawn i rywun o wlad arall lwyr fwynhau Lydia Tomos yn hefru'n y trydydd person ei fod 'O 'di bod yn Llanfairfechan ar y soffa 'na drw' nos', neu Mr Picton yn trïo dangos ei hun drwy ddyfynnu'r cwpled: 'Trawsfynydd! Tros ei feini – Gyr y byd ei gerbydau drosti'. Camp yr awduron ydi bod pob pennod yn gyforiog o berlau fel hyn. Job ddiddiwedd fyddai cyfeirio at holl esiamplau o ddoniolwch y cyfresi gan fod 'na rwbath i gosi'ch botwm bol ym mhob un llinell o bob un pennod bron.

Asiffeta! Rhaid mi gonsyntreiddio ar orffen yr erthyl 'ma ar y lop-tap, neu mi fydd y penci golygydd 'na'n rhoi hèl i mi...

Nos Sadwrn nesa, agorwch ddrws cwt newid Bryncoch led y pen gan gyflwyno'ch plant, neu blant eich plant, i dic-tacs y Tîm O. Walis. Mi ga' nhw gysur mawr am flynyddoedd i ddod yn ailadrodd talpiau o ddeialog ac arwyddeiriau eiconig cyfres gomedi orau'r byd.



# Tro ar Fyd

**Y bedwaredd mewn cyfres o ysgrifau gan y Parch. Arthur Meirion Roberts.**

## Yr Wylfa 1964–9



O FEWN yr wythnos gyntaf wedi i mi gyrraedd Cemaes, Môn i fod yn gaplan i'r gweithwyr oedd wedi dechrau codi atomfa'r Wylfa, daeth *Y Cymro* i chwilio amdanaf. Ffotograffydd a'i gêr, a'r gohebydd – gŵr ifanc profiadol a dawnus o'r enw Dyfed Evans! Cawsom hwyl lawer gwaith wedyn wrth gofio brawddeg agoriadol stori'r *Cymro* am y caplan, newydd ddychwelyd o'r cantîn wedi cael ei ginio, a'i fod (yn gwbl wir) yn dechrau 'chwilio ei ffordd yn araf' yn ei swydd newydd! Bu'r gohebydd yn siarad yn ogystal gyda'm cyd-gaplan, y Tad Joe Taffe O.M.I. – gŵr cywir, uchel ei barch, ac nid yn unig ymhlith y Catholigion a'r bechgyn o Iwerddon. Tynnwyd llun hefyd o ddau o'r swyddogion cyd-eglwysig oedd wedi fy ngalw i – y Parchedigion Emlyn Richards a Richard Williams, y ddau o Lŷn.

Wrth gwrs roedd tystio a gwasanaethu ym myd diwydiant yn bodoli, yn amrywiol, ers peth amser: yn Ffrainc a'r Almaen, yn Ne Cymru, yr Alban a Gogledd Lloegr. Ond mewn sawl ffordd roedd yr Wylfa yn wahanol. Roedd yn eciwmenaidd a phum enwad yn fy nghydnabod (a'm cyflogi!) fel eu gwas, ac yn lle un diwydiant sefydlog roedd yr Wylfa a'i weithlu yn newid o ran maint a chymhlethdod o fis i fis. Nid oedd dull o weithio cyson yn bosibl nac yn effeithiol, ac roedd annibyniaeth y penodiad yn hanfodol.

Cyn i'r *Cymro* gyrraedd deallais nad oedd hawl i neb ymweld â'r safle gwaith heb het ddiogelwch galed. Cefais un, lachar o goch, gan un o benaethiaid cwmni Taylor-Woodrow, y prif ymgymerwr sifil. Mewn ymgais i ddangos nad swyddog i'r cwmni oeddwn rhoddais gôt o baent llachar gwyn i'r het – a'm henw ar ei blaen. Ymhen rhai misoedd, a nifer o gwmnïau arbenigol wedi cyrraedd, sylwais mai hetiau gwyn oedd ganddynt hwythau hefyd!

Gwahaniaeth arall oedd bod yna ddarparu cartrefi a llety ar gyfer y miloedd o weithwyr a ddaeth yno. Byw roeddem ni fel teulu ar stad o dai cyngor – tua chant ohonynt – a godwyd ar eu cyfer yn Amlwch. Am yn hir nid oedd na ffordd na phalmant, na rhai tai, wedi eu cwblhau. Ymhen amser, felly, dyma sefydlu Cymdeithas Maesllwyn i ddwyn pwysau am wellhad, a blwch ffôn ac ambell beth arall roedd ei angen ar y trigolion. Byddwn yn galw heibio'r teuluoedd wrth iddynt gyrraedd.

Bu Morfydd yn addoli a chyfeilio yng nghapel bach y Llaethdy gerllaw, yn helpu gyda'r ysgol feithrin yn Amlwch ac yn un o sylfaenwyr Merched y Wawr yno, ac yn pontio'r newydd-ddyfodiaid o sawl gwlad â'r bobl a'r bywyd lleol. Yn aml ar nos Sul byddai rhai o'r bechgyn o wersyll ehangach yr Wylfa ei hun yn dod adre hefo mi i swper. Difyr dros ben.

Ger y safle gwaith ei hun codwyd gwersyll i gartrefu rhai cannoedd o weithwyr symudol. Erbyn 1967 cyrhaeddodd rhif y gweithlu i dros ddwy fil a hanner, tua'r hanner yn lleol a'r gweddill yn deithiol. Bob nos byddwn yn ceisio curo drws y newydd-ddyfodiaid, pob un ond y Catholigion. Nid oedd ganddynt fawr o ddiddordeb yn y capel bach pren 'protestant' a godwyd yno ond ni chefais wg gan neb.



***Capel gwersyll yr Wylfa***

Gan i mi geisio darparu ar gyfer rhai gwledydd a thraddodiadau amrywiol trefnais wasanaeth cymun am chwarter wedi saith ar fore Sul, a gwasanaeth traddodiadol am chwech y nos – yr olaf ar ffurf seiat neu drafodaeth o dro i dro. Ni fu'r ymateb yn hael, ac roeddwn yn siomedig ar y cychwyn. Wedi mynd heibio'r brig yn y gweithlu symudais i adeilad llai, drws nesa i'r fynedfa i'r gwersyll, a bu peth cynnydd. Ond cofiais am ymateb yr offeiriaid diwydiannol yn Ffrainc pan ofynnwyd iddynt beth oedd hanfod eu gwaith. 'C'est la présence,' meddent bob amser. BOD YNA.

***(I'w barhau)***

***A.M.R.***

**D. G. PRITCHARD**
Peintiwr ac Addurnwr
Prisiau cystadleuol
**Ffôn:** (01766) 514 218
(07501) 144 837
1 Stryd yr Eglwys
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9HW


# Canlyniad y Gystadleuaeth Wyddoniaeth

LLONGYFARCHIADAU i **Ifan Llywelyn Hughes o'r Ffôr** am ddod yn fuddugol.
Roedd ei atebion yn gywir ac fe gynigiodd wybodaeth ychwanegol ddiddorol.

| | Cwestiwn | Ateb | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| 1 | Sut mae posib gweld ffrwydradau ar wyneb yr haul heb eu clywed? | Gwagle yw'r gofod. Gan fod golau yn medru teithio trwy wagle, a sain yn methu, gall golau'r ffrwydradau ein cyrraedd ond nid eu sŵn. | Mae golau yn teithio ar gyflymdra o dros 300,000 cilometr yr eiliad (186,000 milltir yr eiliad). Cymer ychydig dros 8 munud i olau'r haul ein cyrraedd. Cyflymdra sain yw o gwmpas 350 metr yr eiliad. Dyna pam y gwelwch chi fellten cyn clywed taran. |
| 2 | Beth welodd Syr Isaac Newton yn syrthio wrth feddwl am ddisgyrchiant? | Afal. | Mae grym disgyrchiant yn cael effaith mawr ar ein bywyd pob dydd. Oherwydd disgyrchiant mae'r ddaear yn cylchdroi'r haul, mae llanw yn y môr, ac ar lawr mae petha'n syrthio nid esgyn i fyny. |
| 3 | Pam mae'r môr yn las ar ddiwrnod braf? | Mae moleciwlau dŵr yn y môr yn adlewyrchu golau ac felly os ydi'r awyr yn las, mae'r môr hefyd yn edrych yn las. | Mae golau gwyn yn cynnwys lliwiau gwahanol – 7 lliw'r enfys. Amsugna moleciwlau dŵr olau gyda thonfedd hir (coch, oren, melyn, gwyrdd) ond mae golau gyda thonfedd fer (glas) yn gallu teithio'n ddyfnach i'r môr a'i adlewyrchu a rhoi lliw glas i'r môr. Does dim llawer o olau yn gallu teithio i ddyfnder o fwy na 200 metr yn y môr. |
| 4 | Beth yw siâp moleciwl DNA? | Mae gan DNA siâp dau foleciwl hir sydd yn troi o gwmpas ei gilydd – siâp helics dwbl. | Ystyr DNA yw 'deoxyribonucleic acid'. Caria DNA enynnau unigolyn ac mae gan bawb batrwm DNA unigryw. Cafodd strwythur DNA ei adnabod yn gyntaf gan Francis Crick a James Watson ym 1953. |
| 5 | Eidalwr a anwyd yn 1452, artist o fri a ddyfeisiodd y parasiwt a hofrennydd. | Leonardo da Vinci. | Ganwyd Leonardo mewn tref fach, Vinci, yn yr Eidal. Roedd yn artist eithriadol a'i waith yn enwog iawn – efallai mai *Y Swper Olaf* ydi'r enwocaf. Roedd hefyd yn beiriannydd ac yn ddyfeisiwr. |
| 6 | Beth yw'r enw ar ffurfiau o ynni fel glo, nwy, ac olew? | Tanwydd ffosil sy'n creu egni an-adnewyddiadwy (h.y. dim ond hyn-a-hyn ohono sydd ar gael, felly fe fydd yn darfod mewn amser.) | Tanwydd a grëwyd yn y ddaear dros filiynau o flynyddoedd. Fe'i cloddiwyd, ac mae'r byd wedi dibynnu arno am ganrifoedd. Mae pwyslais erbyn hyn ar ddatblygu ynni adnewyddiadwy carbon isel, sydd yn llawer gwell i'r amgylchedd e.e. ynni o'r haul, tonnau, gwynt a niwclear. |
| 7 | Pam mae gan gŵn a defaid fathau gwahanol o ddannedd? | Mae cŵn yn bwyta cig ac mae defaid yn bwyta gwair a phlanhigion. | Cigysydd (*carnivore*) ydi ci ac angen dannedd hir, miniog i frathu cig a'i dorri i'w lyncu mewn darnau. Llysysydd (*herbivore*) ydi dafad ac angen rhesi o ddannedd llydan, fflat i falu'r gwair a phlanhigion. |
| 8 | Pam y defnyddir alwminiwm i adeiladu awyrennau? | Mae'n ysgafn ond gall fod yn gryf iawn. | Heddiw, defnyddir llawer o ddeunyddiau cyfansawdd i adeiladu awyrennau sy'n cynnwys gwydr ffibr, ffibr carbon ayyb fel eu bod yn ysgafnach ac mae'r awyren yn defnyddio llai o danwydd. |
| 9 | Sut mae celloedd coch y gwaed yn wahanol i'r celloedd gwyn? | Cario ocsigen o'r ysgyfaint i weddill y corff mae'r celloedd coch ac amddiffyn y corff rhag salwch a heintiau mae'r celloedd gwyn. | Cymysgu'r ocsigen a'r haemoglobin yn y gell sy'n creu y lliw coch.<br><br>Mae'r gwaed yn cynnwys: celloedd coch, celloedd gwyn, plasma gwaed a phlatennau |
| 10 | Pam fydd ffenest 'stafell ymolchi yn wlyb pan ddowch chi allan o gawod, neu fath, cynnes iawn (yn enwedig yn y gaeaf)? | Mae'r anwedd yn yr awyr yn cyddwyso wrth gyffwrdd wal neu ffenestr oer. | Mae dŵr poeth y gawod neu'r bath yn anweddu ac mae'r awyr gynnes yn y 'stafell ymolchi yn cario dŵr ar ffurf anwedd. Pan mae'r anwedd dŵr yn cyffwrdd â'r ffenest, neu wal, neu unrhyw beth arall sy'n oer, mae'n oeri'n sydyn ac mae'r anwedd yn cyddwyso ac yn troi'n ôl yn ddŵr. |

# Golygfa? Pa olygfa?

RYDAN NI i gyd yn gyfarwydd â theithiau cerdded Dafydd Henry Williams, Cricieth a'i stôr o wybodaeth am hynt a helynt yr ardaloedd y mae o wedi'u troedio. Ond mae Mistar ar Mistar Mostyn weithiau, ac fe ddaeth Dafydd ar draws y plac hwn ar ei stepen drws, megis – plac na welodd mohono erioed o'r blaen ac na wyddai ddim amdano.




Mynd am ei ymarfer corff unwaith-y-dydd yr oedd o, ac yn sefyll am eiliad i edrych draw ar olygfa sydd gyda'r gorau yng Nghymru, pan sylwodd ar y plac yn y wal.

Os gwn i wyddoch chi ymhle yng Nghricieth mae'r plac? Bydd yr ateb yn Ffynnon Mehefin!




MAE RHEOLAU Su Doku yn hawdd. Mae angen rhif rhwng 1 a 9 ym mhob bwlch gwag. Dylai pob rhes ar draws y grid gynnwys pob un o'r rhifau rhwng 1 a 9. Dylai pob colofn i lawr y grid gynnwys pob un o'r rhifau 1 i 9. Dylai pob sgwâr 3 x 3 hefyd gynnwys pob un o'r rhifau o 1 i 9. Does ond un ateb cywir.

## Ateb Ebrill

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 3 | 1 | 8 | 2 | 6 | 9 | 5 | 7 |
| 5 | 2 | 7 | 1 | 9 | 4 | 3 | 8 | 6 |
| 9 | 8 | 6 | 3 | 7 | 5 | 4 | 1 | 2 |
| 3 | 7 | 8 | 5 | 1 | 4 | 6 | 2 | 9 |
| 6 | 9 | 5 | 4 | 3 | 7 | 1 | 4 | 8 |
| 1 | 4 | 2 | 6 | 8 | 9 | 7 | 3 | 5 |
| 8 | 5 | 3 | 7 | 6 | 1 | 2 | 9 | 4 |
| 2 | 6 | 4 | 9 | 5 | 3 | 8 | 7 | 1 |
| 7 | 1 | 9 | 2 | 4 | 8 | 5 | 6 | 3 |

## Cymedrol

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 7 | | 8 | | | | | |
| | | | | 4 | 3 | 1 | | |
| | 6 | | | | 9 | 7 | | |
| 6 | | 5 | | | 1 | | | |
| 8 | | | | | | | | 2 |
| | | | 3 | | | 4 | | 6 |
| | | 2 | 9 | | | | 4 | |
| | | 6 | 1 | 3 | | | | |
| | | | | | 7 | | 9 | 5 |


**Ffotograffydd**

Priodasau, portreadau ac ati




Eryl Jones, Gwalia, Chwilog
**(01766) 810 683**
**eryljones@outlook.com**
**Gweplyfr: Eryl Jones Ffotograffydd**

*Cysylltwch am fanylion ac esiamplau*








**Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia**
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

**Ffenestri Dwyfor**

Cae Llyn, Garndolbenmaen, Gwynedd LL51 9TZ
**Ffôn: (01766) 530 397 / (01766) 530 514**
ebost: mowen2549@aol.com
**www.fdwarlein.com**



**Drysau a Ffenestri o bob math a defnydd**

Holwch am ein toeau LivinROOF chwyldroadol ar gyfer eich ystafell haul neu estyniad

Cwmni Cofrestredig FENSA Registered Company

LivinROOF by ultraframe




PE BAECH chi'n cael benthyg blwch ffôn y Doctor a thrafeilio'n ôl neu mlaen mewn amser be fyddai'ch dewis? Tydw i fawr o eisiau gwybod be sy o mlaen i, ond fe hoffwn i weld sut le oedd yma yn Eifionydd ganrifoedd yn ôl.


*Plas Du*

Dewch am drip efo fi i tua diwedd yr unfed-ganrif-ar-bymtheg ac fe laniwn ni'n daclus yn un o gaeau Llanarmon. O'n blaenau mae tŷ urddasol Plas Du; bron na allwch chi ei alw'n blasdy a dweud y gwir. Yma mae Thomas John Owen yn byw. Fo oedd Uchel Siryf Sir Gaenarfon yn y flwyddyn 1569, ond nid yw adref heddiw. Yn hytrach mae'n cael gwylia bach yn ngharchar castell Caernarfon! Mae ei frawd, Hugh Owen, wedi ffoi i Frwsel neu Antwerp. Eisiau gwybod mwy?

Wel, fe benderfynodd Thomas droi ei gefn ar yr Eglwys yn Lloegr ac ymuno â chwyldro'r hen ffydd Babyddol oedd yn cerdded tiroedd Eifionydd bryd hynny. Roedd Hugh, medden nhw, yn un o ysbïwyr Meri, Brenhines yr Alban, a hithau a'r Frenhines Elisabeth ar y pryd yn ffraeo fel dwy gath am sbarion rhyw bysgodyn drewllyd. Roedd 'na si hefyd bod Hugh â'i fys ym mhotas y cynllwyn i chwythu tŷ yn Llundain bell. Dau fradwr ddiawl, bloeddiodd yr awdurdodau! Mae'r cyhuddiadau yn erbyn Thomas yn ddifyr – cynnig lloches i offeiriaid Pabyddol ym Mhlas Du; gohebu'n gyfrinachol ac anghyfreithlon (yn y Gymraeg siwr o fod!) gyda'i frawd, a rhywbeth am gamddefnyddio degymau Aberdaron. 'Na chi le!

Wrth i ni aildanio'r blwch a'i throi hi am adra, dyma i chi rai ffeithiau difyr eraill am y teulu. Roedd John, mab Thomas Owen, yn Brotestant rhonc! Roedd o'n dipyn o ysgolhaig ac fe gyhoeddodd gyfrolau o epigramau yn Lladin oedd yn boblogaidd iawn yn eu dydd. Bu'n rhaid ailargraffu'r gyfrol gyntaf o fewn mis! Fe'i claddwyd yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul, Llundain cyn i Dân Mawr 1666 losgi'r adeilad yn ulw.

Un ffaith fach arall cyn cloi. Bu'n rhaid i'r teulu adael y stad ymhen blynyddoedd oherwydd dyledion a thlodi ac erledigaeth mae'n siwr. Trist yntê?

Panad? Ia, jioch lleia o lefrith a dim siwgwr diolch.

## Chwilair Dod Drwyddi

YN Y DYDDIAU dyrys hyn, y caethiwo a'r 'lockdown' bondigrybwyll yn cael ei orfodi ar y rhan fwyaf ohonom, mae'n dda gweld fod elfennau positif a chalonogol yn amlygu eu hunain ynghanol yr holl bryder ac ofn. Y geiriau gobeithiol hyn sy'n cuddio yn y Chwilair y tro yma. Fedrwch chi ddod o hyd iddyn nhw? Mae pob gair un ai ar ei hyd (llorweddol) neu ar i fyny (fertigol) neu'n groeslinol (deiagonal), a gallant ymddangos ymlaen neu'n ôl. I bwrpas y Chwilair mae'r llythrennau ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th, yn llenwi dau ofod.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | P | W | Y | U | C | H | M | W | C | L | N | E | U | A | D | M | S | N |
| E | W | B | A | O | E | W | R | Y | E | I | Y | N | N | O | L | Y | R | T |
| R | L | L | D | D | T | A | F | R | R | R | S | Y | M | D | B | Y | P | E |
| T | Y | F | L | E | D | A | O | Y | T | W | R | U | E | I | S | N | L | A |
| H | G | L | U | I | T | H | F | F | Y | D | D | L | O | N | D | E | B | L |
| N | E | L | O | H | P | M | T | S | C | W | U | U | O | F | N | H | I | D |
| A | U | T | R | W | S | N | L | E | U | W | A | C | N | G | R | L | D | B |
| S | U | E | A | I | M | Y | Y | W | A | Y | H | W | E | I | S | Y | A | A |
| A | B | U | G | R | H | C | W | R | A | G | S | A | N | Y | W | M | Y | C |
| U | F | E | N | T | U | A | Y | S | F | I | O | D | D | R | B | L | U | D |
| E | C | F | R | U | L | H | W | F | R | R | E | D | G | I | W | R | O | R |
| P | L | U | Y | A | L | W | F | E | E | N | A | I | M | I | O | T | R | Y |
| C | H | W | E | I | H | D | T | L | Y | I | D | L | F | Y | S | G | E | F |
| C | E | W | T | D | D | P | B | B | C | E | L | I | U | H | C | M | E | B |
| G | H | H | W | N | S | A | H | E | R | O | P | L | D | A | Y | N | P | L |
| O | A | Y | N | I | G | O | B | A | I | T | H | L | I | C | H | B | N | W |
| F | L | E | I | R | A | F | C | S | Y | C | E | D | R | O | E | D | W | G |
| A | M | A | L | F | D | D | Y | W | S | T | E | L | Y | D | N | G | A | U |
| L | D | E | L | F | H | P | F | I | R | P | Y | Y | P | M | R | B | N | D |

Dyma'r geiriau:

| | | |
|---|---|---|
| CAREDIGRWYDD | CONSYRN | CYFATHREBU |
| CYFEILLION | CYMDOGAETH DDA | CYMWYNASGARWCH |
| DIOGEL | DYLETSWYDD | FFRINDIAU TRIW |
| FFYDDLONDEB | GOBAITH | GOFAL |
| HAUL AR FRYN | PERTHNASAU | TEULU |
| TEYRNGAR | | |

# Colofn y Coleg

Coleg Meirion Dwyfor

## O'r dosbarth i'r cartref

**Mae'r dysgu'n parhau yng Ngholeg Meirion Dwyfor. Diolch i Anna Griffith, Bryn Ffynnon, Ynys (sydd ar ei blwyddyn gyntaf ym Mhwllheli yn astudio cyrsiau Lefel A) am ei chyfraniad y mis hwn.**



*Anna Ellis Griffith*

GYDA PHOPETH sydd yn digwydd ar hyn o bryd roedd hi'n anochel y byddai'n rhaid i'r coleg gau am gyfnod. Gyda'r campws ar gau, mae'r dosbarth wedi symud i'n cartrefi. Ond diolch i wyrth technoleg rydym wedi gallu parhau gyda'n hastudiaethau o bell ac yn dal ati i ysgrifennu traethodau, ymchwilio i waith a gwrando ar wersi gyda'r tiwtoriaid dros y we.

Er bod y drefn addysgu wedi newid, mae'r dechnoleg rydym eisoes wedi bod yn ei defnyddio yn y coleg yn barod yn profi'n ddefnyddiol iawn. Gallwn gyflwyno gwaith a derbyn adborth mewn dull cyflym ac effeithiol ac mae'r tiwtoriaid yn gallu cysylltu â ni un ai wyneb-yn-wyneb mewn galwad, trwy gyfrwng ebyst neu mewn cyhoeddiadau ar 'Google Classroom'. Yn bersonol, rwyf yn hoff o'r dull yma o ddysgu gan ei fod yn ein galluogi i weithio'n fwy annibynnol sydd yn agor y drws i'r brifysgol a'n paratoi ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd yn gallu cyflwyno gwaith yn sydyn ac yn cael gwersi rhithiol i gyflwyno gwaith i ni. Cawn hefyd gyrsiau digidol i'n paratoi ar gyfer pob math o bethau gan gynnwys y Fagloriaeth Gymreig a chawsom gyfle i fynychu diwrnod agored prifysgol rithiol.

Yn y cyfnod hwn mae cefnogaeth ein tiwtoriaid yn rhoi sicrwydd wrth iddynt ein cefnogi a'n cynorthwyo os oes unrhyw broblem. Mae'r coleg hefyd wedi bod yn sicrhau bod gan yr holl fyfyrwyr y dechnoleg angenrheidiol i gyflawni eu gwaith trwy fenthyca gliniaduron fel bo'r angen. Er bod yr addysg wedi symud i'r we, rhyfedd yw mynd am wythnosau heb gael sgwrsio gyda fy nghyd-fyfyrwyr yn y coridorau a'r ffreutur yn ystod gwersi rhydd ac amseroedd egwyl a chinio. Rhyfedd hefyd yw cael haf heb arholiadau wrth iddyn nhw gael eu canslo. Ein tiwtoriaid bellach fydd yn pennu ein graddau, a'r flwyddyn nesaf bydd cyfle i ailsefyll yr unedau y methon ni eu sefyll eleni – os bydd angen gwneud hynny, wrth gwrs.

Yng nghanol hyn i gyd credaf ei bod hi'n bwysicach nag erioed cadw mewn cysylltiad â'n ffrindiau a'n hanwyliaid, ac mae cyfryngau technolegol fel Facetime, Zoom a Google Hangout wedi galluogi i mi sgwrsio, chwerthin a chystadlu mewn sawl cwis gyda fy ffrindiau. Un ffordd rwyf wedi bod yn cadw mewn cysylltiad â'n ffrindiau pennaf oedd trwy gyfarfodydd wythnosol Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi ble cawn amrywiaeth o weithgareddau o gwis i dwrnament pŵl rhithiol. Mae hyn yn ychwanegu normalrwydd i'r cyfnod gan gadw i'r drefn arferol o fywyd yma yng nghefn gwlad Eifionydd. Ond drwy bob gobaith y bydd popeth yn ôl i'r drefn ymhen dim o amser, rwyf yn erfyn ar bawb i gadw'n ddiogel a hefyd yn galonnog. Cofiwch, daw eto haul ar fryn.

***Anna Ellis Griffith***


**Gwasanaeth Cyfrifon Caren**

- Cyfrifon cyfrifiadurol (Sage)
- Treth ar Werth
- Ffigurau misol
- Cyflogau

Telerau rhesymol • Gwasanaeth Cyfeillgar
Cymwysedig yn system Gyfrifiadurol Sage
Polisi Indemnity

**Caren Thomas AICB (Comp)**
**Tel/Ffacs: (01766) 810 096**
**Symudol: (07881) 922 937**
**carensbookkeeping@btinternet.com**

*Aelod Cyswllt Cyfrifiadurol*
*Rhif Practis 3040*

**HARI ROBERTS GROUNDWORKS**

Cil y Castell, Cricieth
LL52 0EG

- Walio
- Codi ffensys
- Slabio
- Gosod draeniau
- Ystod eang o waith peirianyddol

**Ffôn: (01766) 522 469 / (07768) 312 596**





**Blodau Eleri**

Blodau gwreiddiol, traddodiadol a modern ar gyfer pob achlysur.
**Priodasau yw ein harbenigedd**

34 Stryd Fawr
Cricieth LL52 0BT
**(01766) 522 626**
**www.blodaueleri.co.uk**





***'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'***

**Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)**

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael ewyllys yn y Gymraeg cysylltwch trwy ebost:
**ruthcjones25@aol.com**
**(Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau)**

**Haydn E. Williams Cyf.**
Syrfewyr Adeiladu Siartredig
RICS

Gellidara, Penrhos, PWLLHELI
Gwynedd LL53 7HF

**Ceisiadau Cynllunio**
**Cynlluniau Adeiladu**
**Adroddiadau i Brynwyr Tai**
**Gwaith Proffesiynol Cyflawn**
**Ymgynghori**

**(01758) 614 444 (07881) 641 792**
info@haydnewilliams.com
**www.haydnewilliams.com**

# Lleuad llawn

**Lleuad llawn yn codi y tu ôl i’r castell yng Nghricieth**



*Llun: Arwyn Foster*

# Llyfrgelloedd Gwynedd ar gael o adref



OS YDYCH yn gweld colli eich llyfrgell leol yn ystod y cyfnod hwn, cofiwch bod modd manteisio ar adnoddau’r llyfrgelloedd ar-lein. Am fwy o wybodaeth ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/catalogllyfrgell ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau perthnasol.

**Cofiwch bod modd derbyn copi o'r Ffynnon yn fisol dros y we hefyd. Bydd yn cael ei yrru atoch fel dogfen PDF ar ebost. Bargen am £6 y flwyddyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Margaret Griffith 01766 810513 m.griffith901@btinternet.com**

# Drama mewn llythyr



Annwl Mistyr Pryf Wenidoc

Helo, Nesta dwi. Rydw i'n 6 oed ac mae gen i broblam. Mae gen i ddant syn siglo 'nôl a mlaen yn fy ngheg. Mi fydd wedi gorffen siglo cyn bo hir.

Fel arfar 'dwi'n rhoi y dant o dan clustog fy ngwely ar gyfer y Tylwyth Teg. Mae 'nhw'n casglu dannadd cynta plant i adeiladu petha efo 'nhw.

Ydi'r tylwyth teg yn weithwyr allweddol neu ddim? A wnewch chi adael iddynt fod yn pwysic fel y nyrsys a'r doctors a'r Sam Tâns a'r dynion bins a ballu os gwelwch chi'n dda?

Diolch yn fawr.

Nesta

# Yes Cymru

MAE Gwasg y Lolfa’n paratoi cyfrol ddwyieithog i drafod a dathlu’r twf mewn cefnogaeth i Annibyniaeth i Gymru. Bydd y gyfrol yn cynnwys detholiad o straeon gan unigolion sydd wedi tystio i’r twf yma ers Ewros 2016, sydd wedi ymuno â’r ymgyrch yn sgil refferendwm Brexit, neu wedi penderfynu yn nyddiau’r coronafeirws mai annibyniaeth i Gymru yw’r unig ffordd ymlaen.

Meddai golygydd y gyfrol, Mari Emlyn: ‘Byddai’n dda cael straeon o bob cwr o Gymru yn nodi pam eich bod chi wedi dewis cefnogi annibyniaeth i Gymru. Byddai’n dda hefyd pe gallech anfon lluniau ohonoch chi a’ch teulu/ffrindiau i gyd-fynd â’ch profiad – yn yr Ewros yn 2016, mewn cyfarfodydd canghennau Yes Cymru, ar un o’r gorymdeithiau dros Annibyniaeth, o fewn eich cymuned neu yn eich cartref yn ystod y *lockdown*.’

Cysylltwch gyda Mari Emlyn i gynnig eich lluniau a’ch straeon: mari.emlyn@btinternet.com Dyddiad cau derbyn deunydd yw 1 Mehefin 2020.

# Cricieth yng Nghanada

RYDAN NI i gyd yn cysylltu Robert Dafydd Cadwalader o Gricieth â'r môr a does dim ond angen i chi edrych ar y lluniau o'i waith i weld hynny. Ond faint ohonoch fyddai wedi ei gysylltu â'r mynyddoedd? 'Nôl yn 1986 roedd yn sefyll yng nghanol mynyddoedd y Rockies yn Nghanada yn edrych tuag at Wyllt y Kwadacha yng ngogledd Colombia Brydeinig, a draw wedyn tuag at fynydd o'r enw Cricieth! Nid yn annisgwyl, falla, roedd Cricieth yn rhan o fynyddres o'r enw Mynyddres Lloyd George.




***Lleoliad Mynydd Cricieth ar fap***

Ar y pryd roedd Robert yn byw yn Port Hardy, Canada gyda'i wraig a'i ddwy ferch. Ar ôl gweithio am sbel ar gychod pysgota cafodd swydd fel Syrfëwr Hydrograffeg (gwaith mapio tirweddau'r moroedd a'r glannau), ac yno yn mesur disgyrchiant ar hyd y Rocky Mountain Trench yr oedd o pan sylweddolodd beth oedd o dan ei drwyn, megis.

Doedd y gwaith ddim yn hawdd gan fod y tirwedd yn anodd ond roedd hi'n ddiwrnod claear braf pan edrychodd draw at 'Gricieth' a bu'r hiraeth bron â'i lethu; doedd o ddim wedi bod adref yng Nghricieth ers pedair blynedd.

Fforiwr (chwiliwr tiroedd anhysbys) Americanaidd o'r enw Paul Leland Haworth a enwodd Fynyddres Lloyd George yn 1916. Roedd Lloyd George yn Brif Weinidog ar y pryd wrth gwrs. Wedyn, yn 1947, dringwyd y fynyddres gan dîm o ddringwyr dan arweiniad y mynyddwr enwog Frank Smythe. Gwnaethpwyd arolwg manwl ac eang o'r mynyddoedd, ac yn ogystal ag enwi un yn Fynydd Cricieth, Frank Smythe hefyd a enwodd rai o nodweddion y fynyddres yn rhewlif Llanberis, Mynydd Glendower a Chrib Enlli.



***Ar Fynyddres Lloyd George yn edrych draw o'r Glendower at Fynydd Cricieth yn y pellter ar y dde***

Fel rhai o ddringwyr mwyaf enwog y byd roedd gan Frank Smythe gysylltiad â Chymru trwy Gapel Curig gan iddo fod yn hyfforddwr rhyfela mynydd yno yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bu farw'n ddyn ifanc ddeufis cyn i enwau'r mynyddoedd gael eu mabwysiadu'n swyddogol yn 1949. Yn 1953 enwyd mynydd agos at Fynyddres Lloyd George yn Fynydd Smythe. Mae gan Gricieth le i ddiolch iddo am gongl fach o Ganada!




Ateb pos y tro diwethaf oedd:

**CWELLYN**

Beth am aros ym myd Daearyddiaeth? Dyma chwech o gwestiynau. Aildrefnwch yr atebion fel bod llythyren gyntaf pob ateb yn y drefn iawn i roi enw mynydd i chi.

1. Gwlad Afon Loire.
2. Pentref El Bandito.
3. Gwlad W. B Yeats.
4. Enw Saesneg Caerwynt.
5. Sir sydd yn ffinio â Chernyw.
6. Capel Siân Owen.

**Pob hwyl i chi.**

Gellwch lawrlwytho'r rhifyn hwn o'r **Ffynnon** oddi ar y wefan:

bro.360.cymru/aelod/YFfynnon

**Gwyn Lloyd Williams**

**Adeiladwr Proffesiynol**

***Blynyddoedd o brofiad • Amcangyfrif am ddim***

Rhif ffôn: (01758) 612 736
Symudol: (07880) 581 579

# Cysur a chelwydd

COFFI cynta'r bora, rhoi mwythau i'r gath, tro hyd Afon Dwyfor, pobi bara banana (eto fyth!), dyfrio'r blodau, darllen stori nos-da... y pethau bychain sy'n rhoi'r boddhad dyfnaf yng nghanol cyfnod mor ansicr ac anobeithiol. O'r llond dwrn o sgyrsiau-o-bell rydw i wedi eu cael efo pobol Eifionydd dros yr wythnosau diwethaf, cyfri'n bendithion ydan ni i gyd, a diolch bob dydd ein bod ni'n byw mewn ardal mor hardd a heddychlon, ac yn rhan o gymuned mor glòs a chymwynasgar.

Ond tydi pawb ddim mor lwcus. Hawdd ydi anghofio'r miliynau sy'n byw mewn dinasoedd; y teuluoedd sydd wedi'u stwffio fel sardîns i fflatiau bach tywyll mewn tyrau uchel, heb hyd yn oed falconi i fedru camu allan i'r awyr iach heb sôn am ardd a môr ac afon.

Mae gwleidyddion y byd – Johnson, Trump, Macron ac eraill – yn defnyddio iaith rhyfel i ddisgrifio'r pandemig. Gelyn ydi'r feirws – un sydd rhaid brwydro'n ddewr yn ei erbyn i'w drechu. Ond fel y dywedodd y dramodydd Groegaidd Aeschylus, 'Mewn rhyfel, gwirionedd sy'n marw gyntaf', ac mae celanedd hwnnw ymhobman o'n cwmpas – yn ystadegau gwyrdroëdig ac annigonol adroddiadau dyddiol Llywodraeth San Steffan; yn eu celwyddau noeth ynglŷn â'u polisi 'Herd Immunity', PPE, a pha mor drylwyr oedd eu paratoadau am bandemig o'r fath; yn yr haenau o gyfrinachedd a dylanwad amhriodol sy'n llygru'r panel ymgynghori gwyddonol SAGE...

Mae cyrff y gwirioneddau bellach yn pentyrru hyd goridorau cudd Downing Street, a drewdod persawr y propaganda'n codi cyfog. Mae hyd yn oed y clapio i ofalwyr ar nos Iau wedi cael ei wyrdroi o fod yn weithred gymunedol o ddiolchgarwch didwyll i fod yn ddefod orfodol, filitaraidd, i'n darbwyllo bod ein harweinyddion Torïaidd yn malio mwya sydyn am weithwyr ein Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, a hwnnw ar ei liniau wedi degawd o'u toriadau llym.


Ar 27 Mawrth cyhoeddodd Michael Gove fod 'y ffaith bod y Prif Weinidog yn ogystal â'r Gweinidog Iechyd wedi cael y feirws yn ein hatgoffa ni nad ydi'r feirws yn gwahaniaethu. Rydan ni i gyd mewn perygl.' Onid dyma'r celwydd mwyaf cyfrwys a chreulon ohonyn nhw i gyd? Y gwir ydi bod anghyfiawnder cymdeithasol yn golygu bod rhai pobol lawer iawn yn fwy tebygol o gael eu heintio (a marw o'r feirws) nag eraill – gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd, gofalwyr cartrefi gofal, gyrwyr bysys, y rhai sy'n llenwi'r silffoedd mewn archfarchnadoedd, ac eraill sydd yn sgil eu gwaith yn dod i fwy o gysylltiad â'r feirws o ddydd i ddydd (a nifer anghyfartal ohonyn nhw o gefndir ethnig lleiafrifol wrth gwrs). I aralleirio Orwell, rydan ni i gyd mewn perygl ond mae rhai ohonon ni mewn mwy o berygl na'n gilydd.

Neithiwr (nos Sul, 10 Mai) darlledwyd trychineb o anerchiad gan Johnson – y 'road map' oedd i fod i amlinellu'r ffordd allan o'r cyfnod clo i Loegr, ond a fydd yn hytrach yn arwain gweithwyr tlawd a difreintiedig i lawr y lôn i gael eu heintio, ac yn arwain y rhai mwy goludog ar hyd y lonydd cefn o Litchfield a Swindon a Burnham-on-Crouch i gael eu 'hymarfer corff hanfodol' ym Meddgelert ac Aberdaron a Borth-y-gest.

Ydan, rydan ni'n lwcus ein bod ni'n byw yn Eifionydd... Ond am ba hyd?

***Gwyneth Glyn***


Bryan Williams
Gemydd – Oriadurwr – Ysgythrwr
80 Stryd Fawr, Pwllheli
(01758) 612 279
Cwpanau – Tariannau – Tlysau a.y.y.b. ar gyfer pob achlysur
Trwsio clociau ac oriaduron
Gemwaith o bob math
Tocynnau Anrheg
Ysgythru ar wydr, tlysau, modrwyau a.y.y.b.
Stoc helaeth o Aur Clogau, Citizen, Nao a Royal Selangor
Hefyd: Gemydd J & L
81 Stryd Fawr, Pwllheli
(01758) 612 558



Tom Parry a'i Gwmni
80 Stryd Fawr, Porthmadog
Ffôn: (01766) 512 505 / 513 164
Syrfewyr, Arwerthwyr a Goruchwylwyr Ystadau
Arwel Williams FRICS
Phil Williams MRICS



O Ddrws i Ddrws
(01758) 721 777
oddrwsiddrws@yahoo.co.uk
www.oddrwsiddrws.org
Gwasanaeth newydd ar gael i ddanfon pobl o gymuned Llanystumdwy i'r Feddygfa am £2 y pen. Mae O Ddrws i Ddrws ar gael i'ch danfon i unrhyw le os ydych chi'n cael trafferth cyrraedd trwy unrhyw ffordd arall.
Ffansi gwirfoddoli? Cysylltwch:
O Ddrws i Ddrws
Drws Agored, Stryd y Plas, Nefyn LL53 6HP
Rhif elusen 1098057



Cyfrifwyr Lleol
Dewch am sgwrs i weld os gallwn fod o wasanaeth i chi
Paratoi Cyfrifon
Treth ar Werth (MTD)
Cadw Llyfrau Ariannol
Ffurflenni Treth
Enillion Cyfalaf
Treth Etifeddiaeth
Cyflogau a Biwro BACS
Digideiddio'r Dreth (MTD)


Griffith, Williams & Co.
CYFRIFWYR SIARTREDIG A CHYNGHORWYR BUSNES | CHARTERED ACCOUNTANTS AND BUSINESS ADVISERS
(01758) 701 701
post@griffithwilliams.co.uk
www.griffithwilliams.co.uk

# Gair o Gatalonia

**Cawsom air eto gan Selwyn Parry Williams sydd yn dal i ynysu yng Nghatalonia. Fel hyn yr adroddodd am y ffordd y mae'r sefyllfa'n newid yno.**

ER BOD y sefyllfa wedi bod yn wael iawn yma yn Sbaen rydym yn dal i deimlo ein bod wedi gwneud y dewis iawn i aros yma ar ein ffarm. Mae Sbaen wedi cael amser gwael ohoni – mae'n wlad dlawd yn economaidd ar y cyfan, gyda theuluoedd mawr yn byw mewn tai bach a fflatiau. Mae'r ffaith bod sawl cenhedlaeth o'r un teulu yn byw gyda'i gilydd wedi golygu bod y feirws wedi lledaenu'n gyflym ar y dechrau. Rwy'n falch bellach o ddweud bod y lledaeniad o dan reolaeth, ac ar ôl chwech wythnos mae plant yn cael eu gadael allan am gyfnodau byr yn ystod y dydd yng nghwmni oedolion. Bellach caniateir i oedolion fynd allan o 6.00 y bora tan 9.00, henoed o 9.00 tan 11.00 a phlant o 11.00 tan 1.00, ond chaiff neb grwydro ymhellach nag un cilometr o'r cartref.

Erbyn hyn mae gan y llywodraeth gynllun penodol dros gyfnod o ddau fis. Bydd pedwar cyfnod a fydd yn para o leiaf bythefnos yr un. Os aiff popeth yn iawn bydd y cyfnodau dros uchafswm o ddau fis, ond os bydd y feirws yn dal i ledaenu efallai y bydd rhaid mynd at yn ôl. Os aiff popeth yn dda o hyn i ddiwedd Mehefin gobeithio bydd popeth mewn trefn (tua 22 Mehefin ydi'r nod).

**Cam 0 – PARATOI**
O 2 Mai: Dechrau ymarfer corff unigol a cherdded gyda rhai sy'n byw yn yr un tŷ.
O 4 Mai: Cael mynd i fwytai ond dim ond i godi tecawê.

**Cam 1 (11 Mai) – CYCHWYNNOL**
Dechrau ailagor busnesau bach (DIM canolfannau siopa). Oriau ffafriol i bobl dros 65 oed. Bwytai yn yr awyr agored yn cael agor ond gyda deiliadaeth o 30%. Agor gwestai a lletyau i dwristiaid, heb agor ardaloedd ymgynnull. Agor safleoedd addoli ar draean o gapasiti.

**Cam 2 (tua 25 Mai) – CANOLRADD**
Agor y bwytai mewnol ar draean o gapasiti yn unig ar gyfer gweini wrth fwrdd (nid wrth y bar).

**Cam 3 (tua 8 Mehefin) – UWCH**
Gwneud symudiadau'n fwy hyblyg. O tua 22 Mehefin bydd mesurau eraill yn cael eu codi. Mae'r flwyddyn ysgol wedi'i gohirio tan fis Medi ond mae yna eithriadau ar gyfer gweithgareddau atgyfnerthu.

Ac yn ôl ym Mhrydain mae Carys ein merch ar y rheng flaen ac yn recriwtio cleifion sydd mewn uned gofal dwys yn Nottingham i dreialu pedwar cyffur gwahanol. Mae hi'n cael nosweithiau di-gwsg yn poeni a fydd ganddi'r offer amddiffyn personol cywir PPE i'w defnyddio'r diwrnod canlynol. A phan mae hi yn y PPE mae'r cyfan yn anghyfforddus iawn ac mae'n anodd iawn cyfathrebu â phobl gwirioneddol sâl ar beiriannau anadlu. Mae nifer fawr o bobl ddewr iawn yn ymladd y feirws hwn; ni allwn ond gobeithio y gallant ddod o hyd i gyffur effeithiol a brechlyn yn fuan iawn.

Gobeithiwn am y gorau.

## Atebion pos Corona

GOBEITHIO eich bod chi i gyd wedi cael hwyl yn canfod atebion i'r cwestiynau Corona! Wel, dyma'r atebion cywir i chi:

1. Bryn Cader Faner
2. Dyrchafer enw Iesu cu
3. T. H. Parry-Williams
4. Iwerddon
5. 12½ ceiniog
6. *The Crown*
7. 1953
8. O'r gair Lladin 'corona' am 'coron', oherwydd bod y feirws yn ymddangos fel coron wrth edrych arno trwy feicrosgop
9. Y diod pop Corona
10. Y pen



@YFfynnon
YFfynnon

Rhys Evans
Saer Coed
Bryn Melyn, Treflys, Porthmadog
Gosod ffenestri, drysau a cheginau
Toi, llorio a phob math o waith saer
Ffôn gartref: (01766) 515 963
Ffôn lôn: (07867) 634 063

STRAIN A'I GWMNI
CYFREITHWYR
Gwaith teulu • Achosion sifil neu iawndal • Trosedd
14a Stryd Penlan, Pwllheli, Gwynedd LL53 5DH
(01758) 455 500 www.strainaigwmni.cymru

TAFARN Y PRINS
CRICIETH
(01766) 522 556
Bwyd da ar gael
*Croeso cynnes i bawb gan Eirian, Phil a'r criw*


# Y Ffynnon 'Bach!'



Rhifyn 1

Mis Mai 2020

# Mis Mai heb Mr Urdd!



Wel, mi fydd hi'n fis Mai gwahanol iawn eleni. Fydd yna ddim Sioe Nefyn, dim hwyl ar lan y môr ac yn waeth na dim fydd yna ddim Eisteddfod yr Urdd! Efallai eich bod i fod i gystadlu, neu wedi cystadlu'n barod gyda gwaith cartref neu gelf a chrefft. Mi fydd Mistar Urdd yn siomedig iawn na fydd o'n cael gweld talentau holl blant Cymru ar y llwyfan yna eleni.

Ond peidiwch â phoeni, mae'r Ffynnon Bach yn mynd i'ch cadw chi'n hapus ac yn brysur am chydig o amser o leiaf! Efallai y byddai'n syniad i ni geisio anfon negeseuon clên i Mistar Urdd i godi ei galon. Be 'da chi'n feddwl? A be fysa chi'n ei ddweud wrtho fo?

Annwyl Mistar Urdd,

......................................................................................................................................................

## Cer ona Corona!

Wrth gwrs, mae pawb yn yr un cwch. Rhaid i ni aros i mewn er mwyn osgoi cael y feirws Corona. Er na fydd yna lawer o ddigwyddiadau yr haf yma, mae digon o bethau y gallwch chi eu gwneud adref i gadw'n brysur. Ond cofiwch y peth pwysicaf yr ydym ni i fod i'w wneud ydi cofio GOLCHI EIN DWYLO! **Lluniwch boster da i atgoffa pawb i olchi eu dwylo.**

**Bydd cystadleuaeth yn cael ei chynnal ar dudalen Facebook Y Ffynnon yn ystod y mis, felly gofynnwch i oedolyn yn eich cartref gadw llygad arni!**

# Posau'r Pentrefi

Dyma fap o Eifionydd, ein bro ni. Mae hi'n ardal ddiddorol, llawn hanes. Beth am ddysgu mwy amdani?



**Tip i chi...**
Chwiliwch am enwau rhai yng nghefn eich copi o'r 'Ffynnon Mawr' !





Mae **rhai** o'r pentrefi wedi eu nodi ar y map, ond mae **rhai ar goll!**

Allwch chi ddod o hyd i enwau pentrefi eraill yn Eifionydd?

## Pentrefi Eifionydd

**Tip i chi...**
Dylai bod gennych o leiaf 14 o enwau!

## Pwy, ac o ble?



____________



____________



____________




____________

## Chwilair

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | L | L | I | R | D | E | L | A | E | A | E | Y | I |
| E | G | R | G | H | C | R | E | R | E | B | A | L | D |
| D | L | I | R | O | T | S | G | L | N | A | P | R | H |
| D | Y | C | N | H | L | A | A | A | S | N | N | P | E |
| G | R | N | E | T | A | I | C | E | R | N | A | E | T |
| E | H | Y | N | E | R | P | W | M | L | H | E | N | R |
| L | O | R | A | I | G | S | I | H | L | O | Y | M | E |
| E | S | B | L | C | R | A | A | H | C | F | C | O | M |
| R | L | F | O | I | B | I | C | L | F | R | L | R | A |
| T | A | A | G | R | F | L | E | O | G | D | A | F | D |
| L | N | L | R | C | R | E | R | T | P | T | N | A | O |
| A | L | L | A | N | A | R | M | O | N | N | N | A | G |
| L | L | A | N | G | Y | B | I | N | A | L | E | A | L |
| L | L | A | N | A | E | L | H | A | E | A | R | N | P |

# Hanes Stesion Afonwen




Yn 1860 daeth newid mawr i Eifionydd pan adeiladwyd rheilffordd o Gaernarfon i Afonwen. Roedd posib dal y trên yn Afonwen i fynd i Ddyffryn Nantlle, i Gaernarfon, i Lerpwl a hyd yn oed i Lundain!

Yn anffodus, yn nechrau'r chwedegau roedd **Yr Arglwydd Beeching** yn gyfrifol am gau nifer o reilffyrdd – ac roedd yr orsaf yn Afonwen yn un ohonynt. Ar ddydd Gwener, yr 11fed o Ragfyr 1964, teithiodd y trên olaf o'r orsaf. Diwrnod trist iawn.
Dim ond olion o'r rheilffordd sydd i'w gweld erbyn hyn yn ardal Eifionydd a Dyffryn Nantlle. Er hyn, rydym ni'n cofio am y rheilffordd mewn cân bop enwog gan y band Sobin a'r Smaeliaid – sef

'Ar y trên i Afonwen'.

Ewch i wrando ar y gân ar YouTube! Mae yna glipiau o'r trên ar y fideo!

## Lliwiwch y llun o'r trên yn gadael Afonwen!



# Rhyfedd o fyd



Glywsoch chi'r gog? Dyna gwestiwn y bydd llawer o bobl yn ei ofyn yr adeg yma o'r flwyddyn. Bydd y gog yn hedfan i'n gwlad ni o Affrica tua mis Ebrill ac mae ei chlywed yn canu yn arwydd bod y gwanwyn wedi cyrraedd. Ond er ein bod yn hoffi clywed ei chân, aderyn digon cas ydi'r gog. Tra bydd yr adar eraill yn brysur yn adeiladu nythod er mwyn cael dodwy wyau a magu teulu bydd y gog yn dodwy ei wy hi yn slei bach mewn nyth aderyn arall. Wedi i'r aderyn sydd piau'r nyth eistedd yn amyneddgar i ddeor yr wyau bydd cyw'r gog yn cael ei fwydo gan yr aderyn bach diniwed gyda gweddill y cywion. Ac yna, pan fydd cyw'r gog yn ddigon cryf bydd yn aml yn gwthio'r cywion bach eraill dros ochr y nyth er mwyn iddo fo gael yr holl fwyd a sylw! Dyna i chi slei.

**Ceisiwch lenwi'r bylchau:**

1. Bydd y gog yn dod i'n gwlad ni o __________


2 Mae ei chlywed yn arwydd bod y ______ wedi cyrraedd

3 Fydd y gog ddim yn trafferth adeiladu _____________

4 Bydd cyw'r gog yn _________'r cywion bach eraill dros ochr y _____



# Croesair y Plant!




**I Lawr**


1. Mae 'na un bychan wrth ymyl Porthmadog (enw pentref).
2. Y Ffynnon ydi enw papur bro yr ardal hon.
4. Mae gen i dipyn o dŷ bach —.
6. Enw arall ar y gog.
8. Afon sy'n mynd i'r môr rhwng Afonwen a Phwllheli.

**Ar Draws**

3. Llan ble mae eglwys a ffynnon i gofio'r sant hwn.
5. Gair am deimlad o golli. Does 'na ddim gair Saesneg.
7. Dim sŵn ond rhai glas sydd gan y gog.
9. Mae bedd Prif Weinidog ar lan yr afon hon.
10. Yn tyfu bob ochor i Lôn arbennig yn Eifionydd.



# Croesair 411



**Enw:** ..............................................................

**Cyfeiriad** ...................................................

..........................................................................

**AR DRAWS**

3 Bydd angen llawer i droi wast ym Moduan (9)
8 - - - - mynd i'r gwellt (4) Dihareb
9 Pum ugain ac M – niferus iawn (4,1,3)
10 Llai na dinas, llai na thref (6)
13 - - - a wna'r hindda (3) Dihareb
15 Teitl: '- - - - - gofalon bugail' sef blwyddyn ym mywyd Gweinidog (5)
17 Troseddu, pechu, mewn Mac ddu, Ew! (7)
18 - - - fo'r machlud ar y gorwel (3) Pennill telyn
19 Pwyslais Dai a Cen (7)
21 Ail gnwd o wair mewn dadl a ddaw
24 'Byth na 'mad oddi wrth dy bobol nes yn - - -'r elo'r byd' (3)
27 Gwael - - - - - - heb ddysg (6) Dihareb
30 Diod melys Lyn Meddyg (8)
31 - - - - a ffyliaid ym mhob man (4) Dihareb
32 Addurniadau ar arddyrnau, eich bri, Del (9)

**I LAWR**

1 Trawiad neu gnoc mewn chwa poeth (4)
2 Asgell yr hwyaden tybed? (4)
4 Berwr dŵr yn y Cell Te (5)
5 Cau ac agor llygad fel ciw Anni (7)
6 Nawr yn newid lle ar hyn o bryd (4)
7 Dic Aberdaron er enghraifft (6)
11 Ef a hi ynte hi? (3)
12 '- - -'r Gorllewin', cofiant T. Llew Jones (3)
13 Ffordd neu stryd yn y De (4)
14 Tywyllodd, gan ledu oddi amgylch (4)
15 - - - - ei dafod (4) Dihareb
16 'Un - - - - a'i gap pig loyw' (4) Y Talwrn
17 Brwydr, ymladdfa (3)
18 Cyfochrog â'r lapel (7)
20 Llugoer a difater, edrychwch ar Alec (6)
22 - - - ddigon sydd (3) Dihareb
23 'Canwn megis hwythau, - - - o nerth i nerth' (3) Emyn
25 Anhysbys ac anenwog. Ond id (2-3)
26 'F'enaid glŷn wrth Grist mewn - - - -, Pwy fel Efe' (4)
28 Ffrwyth Eden (4)
29 Tywysydd Santa (4)

ER y bu'r gwerthfawrogiad gennych chi ddarllenwyr am rifyn digidol Ebrill o'r Ffynnon yn ddiffuant iawn, fe dderbyniwyd sylw o un neu ddau o gyfeiriadau ei bod yn drueni nad oedd y Croesair ddim yno. Ein bwriad wrth gwrs, fel y nodwyd yn rhifyn Ebrill, oedd cyhoeddi'r croesair nesaf yn y rhifyn cyntaf a argreffid ar ôl cyfnod caethiwus y coronafeirws, ond dyma ni unwaith eto ar ôl dim ond mis o seibiant!

Yr unig wahaniaeth y tro hwn fydd gofyn i chi groeseirwyr **beidio** ag anfon eich atebion at Dilys, a disgwyl tan rifyn Mehefin i gael yr atebion. Diolch iddi hi am ymateb i'n cais i baratoi'r croesair ar eich cyfer. Fe gewch bleser yn mynd i'r afael â fo.

**Atebion Croesair 410**


Derbyniais 44 croesair trwy'r post ond nid oedd yn bosibl i mi dderbyn y croeseiriau i gyd gan bod Llên Llŷn ar gau. ATEBION AR DRAWS: 1 Rhoces 4 Sillafu 8 Gorau arf arf dysg 10 Radio 11 Gwefus bur 13 Sgrafelli 15 Sychu 17 Cawr 18 Gwawrddydd 22 Buddiannau 23 Mwyar 24 Noswaith y Nadolig 26 Llofnod 27 Robin


I LAWR: 1 Rhagori 2 Caredigrwydd 3 Stumogau 4 Sianeli 5 Llofrudd 6 Fry 7 Trigle 9 Gorau 12 Bryn yn y Clwb (Nid yn y Glob) 14 Lliw 16 Dramodwr 17 Coban 18 Genethod 19 Addurno 20 Tafarn 21 Brigyn 25 Suo/Sio

Yn gywir oedd: Margaret Ellis Hughes, Margaret Williams, Abererch; John a Meirwen, Abergele; Menna LL Green, Delyth M. Williams, Bala; Thomas G. Owen, Bilston; Merian Parry Hughes, Conwy; Nell D. Hughes, Arfor Jones, Gwyneth Jones, Sian Jones, Catherine Williams, Cricieth; Gwenda Williams, Croesor; Gwyn Parry Williams, Ann Thomas, Chwilog; Wendy Haverfield, Garndolbenmaen; Meinir Owen, Harlech; Eileen Walker, Keighley; Laura Roberts, Doris Williams, Llandudno; Ellen Davies, Llanystumdwy; Ceinwen Hughes, Mena Williams, Penygroes; Mabel Parry, Porthmadog; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Mair E. Roberts, Margaret Williams, Y Ffôr.

# Rowndio'r Castell

TEITIA MAWR fyddai Taid yn eu galw nhw, a ddwywaith y flwyddyn pan fydd y llanw felly mi fedrwch gerdded rownd Castell Cricieth ar y traeth. Pan wela i'r garreg fach yn glir o'r dŵr wrth droed y graig ar ochor y Marîn o'r Castell mae nghalon i'n curo curiad ychwanegol – arwydd bod y llanw'n ddigon pell. Mae 'na rywbeth cyfrin, cynhyrfus iawn mewn gallu cerdded o gwmpas rhwng y graig a'r môr a sleifio i mewn i ogof Robert Graves i rannu o'i *Welsh Incident*!





***Y garreg fach ac ogof 'The Welsh Incident'***

Gan fod y lleuad yn llawn a hithau'n ddechrau mis Ebrill roeddwn i wedi amau y byddai 'na gyfle, a phnawn Iau 9 Ebrill ches i mo fy siomi. Roedd y tywydd yn berffaith, haul braf cynnes, dim adyn byw o gwmpas oherwydd y Covid, a'r llanw allan yn bell, bell. Gydag ugain munud hyd nes byddai'r llanw'n troi roedd gen i brin chwe troedfedd o gerrig mân i ngwarchod i rhwng y graig a'r môr.



***Y tir prin rhwng y graig a'r môr***

I mi mae'r 'dro' fach yma'n ffenomenon ac, yn ôl y chwedl, wna i ddim gadael Cricieth rŵan. Weles i mo greaduriaid rhyfedd Robert Graves cofiwch, dim ond tonnau diog yn sgubo'r traeth a thair gwylan yn nofio ar wyneb y dŵr yn ddi-hid.

Rhaid aros tan tua mis Medi rŵan nes bydd y llanw'n ddigon isel i ni gael cynnig arni eto. Peidiwch â cholli'r cyfle, mae'n werth chweil ac yn rhywbeth fydda i'n edrych ymlaen ato er nad ydw i bob amser yn llwyddo i gael y gorau ar y llanw.




MAIN IAWN ydyw hi am newyddion. Mae'r papurau yn llai a does dim ynddynt ond pryder am y dyfodol. Un llygedyn o obaith yw fod mwy o bobl ifanc yn ymddiddori yn y diwydiant amaethyddol a'r diwydiannau cysylltiol. Y rheswm am hynny mae'n siwr yw na ellir mynd ag amaethyddiaeth oddi yma, a chyn belled ag y bydd y Llywodraeth yn gwarchod ein buddiannau mae gobaith i'r dyfodol. Sut bydd hi gyda'r diwydiant twristiaeth tybed? Mae cynifer o ffermydd yn dibynnu ar y diwydiant hwnnw ac o bosib – er gwell neu er gwaeth – y gwelwn gynnydd yn y maes.

Gyda'r anfadwch Corona 'ma yn broblem mor anferthol mae un bardd, Elin Angharad Davies o Ysbyty Ifan, yn cyfleu'r anawsterau yn un o'i cherddi. Dyma un pennill:

Mewn byd llawn hunanoldeb
A silffoedd gweigion glân,
Rhaid tynnu at ein gilydd
Wrth gadw ar wahân.

Yn y cylchgrawn *Gair y Dydd,* wrth drafod yr wythfed salm, mae'n sôn am ddeg gorchymyn un o lwythau cynhenid Canada cyn i'r Ewropeaid gyrraedd yno: y ddaear yw ein mam ni, gofalwn amdani. Cymerwch yr hyn yr ydych ei angen o'r ddaear a dim mwy. Mwynhewch daith bywyd heb adael dim o'ch ôl.

Mae'n dymor casglu silwair a bydd yn rhaid bod yn ofalus iawn eleni gan fod cymaint o angen glaw. Y dyddiau hyn, dyddiau cyntaf Mai, siawns na fydd yn rhatach i'w gasglu gan fod pris tanwydd wedi gostwng cryn dipyn.

Mae Hufenfa De Arfon yn cadw pris y llaeth yr un fath y mis yma eto. Mae mynd da ar y caws ac maent wedi prynu pedair tancer newydd i gasglu'r llaeth gan gwmni DAF o swydd Gaerhirfyn. Cwmni o America sydd berchen y ffatri bellach a hwy sydd yn adeiladu loriau enwog Kenilworth yn yr Unol Daleithau hefyd. Yn Swydd Gaerhirfryn cynhyrchir 180 o loriau bob dydd. Bu gweld un ohonynt yn dod oddi ar y blociau yn agoriad llygad garw i Dylan Owen, swyddog trafnidiaeth yr hufenfa, pan fu yn y ffatri ym mis Chwefror.

**Y gri o hyd yw: Arhoswch gartref a byddwch yn ofalus.**




## Cofiwch anfon eich newyddion lleol atom erbyn 9 Mehefin




DIOLCH o galon i bob un sy'n gweithio'n ddiflino i ddanfon meddyginiaethau, bwyd a phapur newydd ac yn y blaen i'r drws. Mae'r gwasanaeth i weld yn gweithio'n ardderchog; fydd neb yn llwgu, mae 'na ddigon o bob peth i'w gael yn Abererch.

Oherwydd amgylchiadau does dim gwasanaethau yn Capel Isa ond diolchwn i'r gweinidog, y Parch. Bryn Williams, am baratoi gwasanaethau i ni dros y we. Gobeithio eich bod yn cael bendith wrth gydaddoli yn y dull newydd yma.

Llongyfarchiadau i Meinir, Llechan Lân ar ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd efeilliaid i'w merch Alaw ac Ifan Wyn, Felin Llannor ar 11 Mawrth – dwy ferch, Enid Elisa a Glain Elisa, chwiorydd i Magi Grug ac Orig. Pob bendith arnoch fel teulu.

Cydymdeimlwn â theulu Angorfa, Lôn Glen Elen, sef Margaret a'r hogia Gareth a Glyn Hughes yn dilyn marwolaeth chwaer-yng-nghyfraith Margaret, Catherine Naden o Lanbedrog. Profedigaeth drist o golli un oedd mor annwyl ganddynt.

Cofion cynnes at bawb yn y pentref a chadwch yn saff.




PRIN ydi newyddion ar hyn o bryd ond rydan ni'n gobeithio bod pawb yn cadw'n iawn ac yn anfon ein cofion atoch i gyd.




LLONGYFARCHIADAU i Siân a John, Havelock ar ddod yn daid a nain ddwywaith ym mis Mai. Ganwyd Reuben Owen i Owen ac Amy yn Swydd Gaerhirfryn, ac yn fuan wedyn ganwyd merch, Penny Rose i Bethan ac Andy ym Mhentrefelin.



*Robin a Rene Roberts ar ddydd eu priodas*

Llongyfarchiadau i Robin a Rene, Brookside (a Chaffi Cwrt wrth gwrs) ar ddathlu eu priodas ddiemwnt ganol y mis diwethaf. Priodwyd y ddau yn Eglwys Sant Ioan, Pwllheli ym 1960. Y forwyn oedd chwaer Rene, y ddiweddar Margaret Adams, a'r gwas oedd y cerddwr enwog Dafydd Henry Williams. Ar y pryd roedd Robin a Rene yn byw a gweithio yn Nottingham.

Braf iawn ydi medru cyfeirio at lwyddiant Cyngor Tref Cricieth yn ennill dwy wobr arloesol genedlaethol Un Llais Cymru 2020: Menter Dwristiaeth Orau am brosiect Strydoedd Unigryw, a hefyd yr Adroddiad Blynyddol Gorau 2028/19 (ar y cyd â Chyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn). Llongyfarchiadau i'r holl grwpiau a'r aelodau o'r gymuned sydd wedi gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni hyn.

Diolch o galon i'r holl siopau a busnesau sydd wedi bod yn agored yn ystod y cyfnod diweddar. Rydym mor ffodus yma bod popeth hanfodol ar gael i ni ar y Stryd Fawr.




BRAF cael dweud bod y gwanwyn yn y Cwm ar ei orau unwaith eto, ac o bosib wedi cyrraedd yn gynt nag arfer eleni. Dychwelodd y gog a'r wennol ac mae'r carpedi glas o fwtsias y gog yn werth eu gweld.

Drwg gennym ddeall bod Dave Goodwin, Y Gyfyng wedi bod yn dioddef o'r coronafeirws ac wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Rydym yn falch o ddeall ei fod wedi dod adref erbyn hyn ac yn gwella. Anfonwn ein cofion cynnes ato a'n dymuniadau gorau am wellhad llwyr. Mae Dave yn un o'r cymwynaswyr fyddai'n dod i helpu i blygu'r Ffynnon.

@YFfynnon
YFfynnon




ER BOD cyfyngiadau clefyd COVID-19 wedi effeithio llawer ar ein mynd a dod arferol a'n gallu i gymdeithasu â'n gilydd, da yw cael croesawu un ymwelydd sydd wedi teithio o dramor i godi'n calonnau yn y Cwm. Hyfryd yw cael clywed deunod y gog eleni yn fwy nag erioed a ninnau'n byw mewn cyfnod mor anodd a heriol.




FEL pobman arall ychydig o newyddion sydd yn dod i law y dyddiau hyn. Gadewch i ni wybod os oes gennych bwt ar ein cyfer.

Cydymdeimlwn â thri a gafodd brofedigaethau yn ddiweddar – Wyn Edwards a'r teulu, Pen y Bryn yn eu profedigaeth o golli brawd–yng-nghyfraith Wyn; Dilys Jones a'r teulu, Llwyn Derw yn eu profedigaeth o golli modryb yn Llanrug. Trist iawn hefyd oedd clywed am golli Mrs Nellie Thomas, mam annwyl Eirlys Jones, Llannerch a nain i Arwel a Marian.

Llongyfarchiadau i Gwilym a Bethany Jones, Llety'r Wennol gynt ar enedigaeth merch fach, Olwen Enfys, yn Eccleston, Chorley yn ddiweddar. Pob hwyl ar y magu.

Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Mrs Blodwen Evans, 4 Rhesdai Afonwen a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.




COFION at bawb yn yr ardal ac i holl ddarllenwyr y Ffynnon yn ystod y cyfnod dyrys hwn. Mawr yw ein gwerthfawrogiad o holl weithwyr allweddol yr ardal.

Cydymdeimlwn a Mrs Helen Williams a'r teulu (Garreg Lwyd gynt) yn ei phrofedigaeth o golli ei thad-yng-nghyfraith yn ddiweddar.

Oherwydd haint COVID-19 bu'n rhaid gohirio Sioe Flodau a Chynnyrch Garndolbenmaen am eleni. Gohiriwyd y sioe hefyd yn y flwyddyn 1997 adeg angladd y Dywysoges Diana. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Sioe y flwyddyn nesaf.




DA oedd gweld Eifion, Glan Gors gynt, yn arwain y gwaith o gynorthwyo pobl ym mhentref Llanfairpwll, Môn yn ystod y cyfnod anodd hwn. Bu Eifion yn siarad am y gwaith ar raglen newyddion S4C.

Cydymdeimlwn â Mrs Margaret Strutt, Bodawen ar farwolaeth ei brawd, Mr Evan Williams yn Nhalysarn. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Angela Williams, Rhoshelyg a gollodd ei chwaer-yng-nghyfraith Mrs Patricia Williams yn Porterhead.

Mae'n cydymdeimlad hefyd â Mrs Elin Owen ein prifathrawes a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad Mrs Owen, sef Mr Robert Jones Parry, Ciliau, Llithfaen ar 10 Mai.

Mae trigolion Llangybi yn cwyno'n arw fod rhai pobl sy'n dod a'u cŵn am dro yno yn baeddu'r lôn gan nad ydyn nhw'n clirio'r baw ar eu holau. Man arall lle mae'r diffyg ystyriaeth i'w weld yn amlwg yw ar y darn o dir glas hyfryd ar fin y ffordd yr ochr uchaf i Felin Plas Du. Cyfrifwyd yno gynifer ag wyth tocyn o faw ci o fewn ychydig lathenni, ac un arall mewn bag plastig heb ei gludo oddi yno.

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**




Ym mrigau'r ynn, mae'n dymor gwirioni
A'r tiwnio'n daer; mae parti'n y deri;
Mae'n fis y blodau; mae'n fis baledi –
Ar ôl cwsg Ionawr, rowlio casgenni;
Na foed un gair am Fedi'r haf yn llwch:
Mwy, ymlonnwch – mae yma aileni.

*Myrddin ap Dafydd*

AR 7 EBRILL yn dawel yng Nghartref Bryn Awelon, Cricieth bu farw Mr Trevor Haines, Crynant, Cae Llwyd yn 91 mlwydd oed. Bu Trevor yn athro Saesneg yn Ysgol Eifionydd am rai blynyddoedd. Ein cofion at ei briod Margaret a'r meibion Richard a Jules yn eu galar.

Yn dawel yn Ysbyty Alltwen yn 80 mlwydd oed bu farw Mr Maurice Hope, Hen Felin. Wedi ymddeol i'r pentref ers rhai blynyddoedd roedd Maurice yn ddarlithydd, cerddor ac awdur. Ein cydymdeimlad â'i briod Margaret, ei ferch Catherine a gweddill ei deulu.

Ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Arwyn Ellis, Llwyn. Yn ddiweddar bu farw ei fam Mrs Gwendoline Davies ym Mhlas y Don, Pwllheli a hithau ar drothwy ei chanfed pen-blwydd. Ein cofion at Arwyn, Sian, ac Einir ac Owain a'u teuluoedd.

Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr John R. Owen, Meillionen, Cae Llwyd sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.




ROEDD dau o drigolion y Llethrau yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar, sef Mrs Gwyneth Jones, Y Bryn ac Aaron, Llechnant. Gobeithio

i chi'ch dau fwynhau'r dathliadau er gwaetha'r cyfyngiadau sy'n bodoli ar yr hyn o bryd.

Yn syth wedi i rifyn Ebrill o'r papur fynd i'r wasg, daeth newyddion cyffrous a chalonogol o fferm Brychyni pan roddodd un o'r heffrod enedigaeth i dri llo bach. Testun codi calon yn wir. Bellach mae'r tri allan yn y caeau yn mwynhau'r heulwen. A chyn gadael fferm Brychyni, dwi'n siŵr y carem longyfarch Sioned Erin Hughes, sef wyres Eifion a Margaret, ar ei llwyddiant diweddar. Daeth Erin yn ail yng nghystadleuaeth stori fer y cylchgrawn *Cara*. Mae'n stori gwerth ei darllen, ac i'w chael ar linc y cylchgrawn, http://cara.cymru/.../stori-fer-erin-hughes-ail-safle-cystadleuaeth-stori-fer-cara-2020. Braf ydi clywed fod cynlluniau ar y gweill gan Wasg Carreg Gwalch i roi holl straeon Erin rhwng cloriau. Llongyfarchiadau iddi, a phob lwc i'r dyfodol.

Anfonwn ein cofion at Non Williams, Bron Mynach sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Mawr obeithio dy fod yn cryfhau Non, ac yn teimlo'n well erbyn hyn.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Sharon Williams, Tŷ Capel a'r teulu ar farwolaeth ewythr i Sharon, sef Mr Evan Williams, Talysarn. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf â chi fel teulu.




DAETH ychwanegiad i deulu Coed y Garth hefo genedigaeth Guto Hari, mab i Alan Fôn ac Elin. Gwna hyn Gwilym ac Iola yn daid a nain; llongyfarchiadau i chi gyd.

Hefyd llongyfarchiadau i Dylan Llŷr Roberts, gynt o'r un cartref, ond bellach yn Glyn Derw, Y Ffôr ar ei apwyntiad i swydd prifathro ysgol Edern. Newyddion da iawn i'r teulu oll.

Mae Gwilym Plas wedi rhoi'r gorau i'w fusnes gwerthu wyau ac yn diolch i'w holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth dros drigain mlynedd. Pob dymuniad da, Gwilym.




LLONGYFARCHIADAU i Carwyn a Lucy, 4 Glasfryn Terrace ar enedigaeth eu merch Ella Fflur ar 28 Ebrill.

Cydymdeimlwn ag Elfyn a Heulwen Hughes, Dolfair a'r hogiau yn eu profedigaeth o golli tad Elfyn ym Mhenrhyndeudraeth.

Mae pobl Pencae yn ddiolchgar iawn i Glwb Ffermwyr Ifanc Llangybi a theulu Bryn Mawr am y pamffledyn Cyswllt Cymdogion a gyhoeddir ganddynt i'n diddori yn ystod y dyddiau dyrys hyn a'n cynorthwyo i gadw cysylltiad â'n gilydd. Daeth dau rifyn drwy'r blwch llythyrau erbyn hyn yn cynnwys gwybodaeth am ba gwmnïau sy'n danfon bwyd i'r drws, sut i gadw'n heini, amrywiol bosau a nôl neges. Os bydd arnoch angen cynhorthwy cysylltwch â chadeiryddion y clwb – Deio, Gwynlys, Abererch (07774 245550) a Glesni, Rhosgyll Fawr, Chwilog (07564 527316).

Diolch hefyd i Ani, Cil Haul a fu o gwmpas y tai yn gosod cerrig bychain ar garreg y drws neu gilbost y giât ag arnynt lun enfys a'r cyfarchiad gobeithiol 'Daw eto haul'.

Llongyfarchiadau i'r golygyddion am gynhyrchu Ffynnon mor dda dan yr amgylchiadau'r mis diwethaf.

Dymunwn adferiad buan i Tudor Rogers, Cil yr Adwy sy'n ymweld â'r meddyg yn Ysbyty Gwynedd yn achlysurol.




BELLACH mae rhaglenni'r ail gyfres o *Helo Syrjeri* a ddarlledwyd ar S4C yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi dirwyn i ben. Cyfres o raglenni difyr yn portreadu gwahanol agweddau ar y gwaith a wneir o ddydd i ddydd yng Nghanolfan Goffa Blaenau Ffestiniog oedd y rhain. Da oedd gweld Mrs Ceri Wyn Williams, Nantygwyrddail, Islawrdref ger Dolgellau yn cymryd rhan yn un o raglenni'r gyfres hon eto. Mae Ceri'n gweithio fel Fferyllydd Hŷn yn y Ganolfan Goffa, a'r tro hwn fe'i gwelwyd yn cynghori claf oedd yn cymryd meddyginiaeth i deneuo gwaed. Un o ferched Eifionydd yw Ceri, wrth gwrs, wedi ei magu ar aelwyd Gesail Gyfarch, Penmorfa. Mae hi'n wraig i Gwern ap Gwynfor, mab Gwynfor a Megan, Cefn Coch Uchaf ac mae ganddynt ddau o blant, sef Nel ac Elis.




DIOLCH i'r criw gwych o wirfoddolwyr am eu dyfalbarhad i gynnig help ac am wneud neges i'r rhai ohonom sydd yn hŷn ac efallai yn fregus. Rydym yn gwerthfawrogi eich caredigrwydd yn fawr iawn.

Diolch hefyd fod y feirws yn cadw draw; mae'r clapio ar nos Iau i'r rhai sy'n gweithio yn y maes iechyd yn boblogaidd iawn. Cadwch yn saff.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn hefo Meinir, Mike, Betsi a Casia, Pennant, 5 Tre'r Ddol a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli Taid annwyl sef Mr Huw Finley Williams, Porthmadog.

Yr un yw ein cydymdeimlad â Jane, Eisteddfa a Marian, Adra, 2 Tre'r Ddol a'u teuluoedd ar farwolaeth eu brawd sef Morris Williams, Llanddanial, Sir Fôn. Fel pentrefwyr anfonwn at y ddau deulu ein cofion cynnes.




GOBEITHIO eich bod i gyd yn dal i ddygymod â'r cyfnod rhyfedd hwn

rydan ni'n byw ynddo ar hyn o bryd. Daw, fe ddaw haul ar fryn eto, ond tan hynny rhaid parhau i gadw at y rheolau ac o wneud hynny fe ddown yn ôl i ryw fath o drefn!

Cydymdeimlir â Linda, Tŷ-Hir-Werddon a'r teulu i gyd ar farwolaeth ei thad, Mr John Eifion Griffiths, Craig Afon, Abersoch ar 9 Ebrill yn 78 mlwydd oed.

Ymddiheuriadau am beidio cynnwys hyn yn y rhifyn diwethaf o'r Ffynnon, ond cydymdeimlir â Brenda, Tegfan ac Arwel, Gwar Rhos a'r teulu i gyd ar farwolaeth Gwen Griffith, Gwar Rhos gynt ar 16 Mawrth.

Braf deall fod Carys Ael-y-Bryn yn gwella'n dda ar ôl triniaeth ddiweddar i'w throed.

Chwarae teg i Tecwyn, tractor enwocaf Cymru, am ddangos ei gefnogaeth i ffermwyr a gweithwyr iechyd drwy ymddangos tu allan i Hendre Bach yn ddiweddar – diolch i Carys, wrth gwrs!

Llongyfarchiadau i ddau frawd o Tŷ'r Ardd ar ddathlu eu penblwyddi yn ddiweddar. Roedd Deio yn un ar hugain ar 14 Ebrill a Twm yn ddeunaw ar 23 Ebrill.




CYDYMDEIMLWN ag Einir a Darren Matulla, Lydia ac Elsi, Cae Coch yn eu profedigaeth o golli nain Einir sef Mrs Gwendoline Mary Davies.




DYMUNIADAU gorau i Miss Elizabeth Williams, Hafan ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Gobeithio y bydd cyfle i ddathlu go iawn pan ddaw cyfnod y caethiwo i ben.

Llongyfarchiadau i Emma ac Osian, Stad Dolwar ar enedigaeth mab, Cain Huw, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Mae'n ŵyr i Gareth a Deirdre Parry, Stad Dolwar a ddaeth hefyd yn ddiweddar yn daid a nain i efeilliaid bach yn Llithfaen, Anni Mai ac Elin Jên; hwythau hefyd yn dal yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y bydd y tri bychan yn cryfhau yn fuan iawn i gael dod adref a chael croeso'r teulu a ffrindiau.

Penodwyd Dylan Roberts, Glyn Derw (Coed y Garth gynt) yn brifathro Ysgol Gynradd Edern. Ar hyn o bryd athro yn Ysgol Gynradd Nefyn yw Dylan ers nifer o flynyddoedd. Llongyfarchiadau a gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn Ysgol Edern.

Yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Ifan Jones, Isfryn, Cae'r Gromlech. Cydymdeimlwn ag Euronwy ei wraig ac Alwyn a Gwenda'r plant a'r teulu oll yn eu colled a'u hiraeth.




LLONGYFARCHIADAU i Nia, Gaerwen gynt a'i phriod Huw James ym Mlaenau Ffestiniog ar enedigaeth mab, Ianto Llew ar 30 Ebrill. Pob dymuniad da i chi ac i'r teulu yn Gaerwen sef Gareth a Mary yn daid a nain, Mrs Betty Williams yn hen nain. a Rhys ac Emyr yn ewythr a hen ewythr.

Mae mwy o gerddwyr, rhedwyr a beicwyr nag a welwyd erioed ar ffyrdd yr Ynys y dyddiau yma, a llawer yn manteisio ar y cyfle i sgwrsio o hirbell.


**HENRY JONES (CRICCIETH) CYF**
YMGYMERWYR ANGLADDAU

Capel Gorffwys • Rhes Capel • Cricieth

**Ffôn: (01766) 522 854 (01766) 523 463**

GWASANAETH GOFALUS A PHERSONOL
24 AWR

**Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

Gostyngiad o 30% i drigolion lleol sy'n dymuno mynychu'n cyrsiau yn ddi-breswyl

Am ragor o wybodaeth,ewch i: **www.tynewydd.cymru**
neu cysylltwch am sgwrs:
Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd LL52 0LW
**tynewydd@llenyddiaethcymru.org / (01766) 522 811**



**DEWI JONES**
**TRYDANWR**
**Domestig a Masnachol**
Gosod, atgyweirio ac ychwanegiadau trydanol
Gwaith profi ac archwilio
Pencaenewydd, Pwllheli
**(07528) 178 464 delfryn@btinternet.com**




# Gêm Jarrett



***Rhan o'r llun swyddogol o dîm Cymru – Gareth Edwards a John Lloyd, prop (cefn); Keith Jarrett a Dewi Bebb (blaen)***


DYCHMYGWCH eich bod chi'n darllen rhifyn digidol mis Mai 1967 o'r Ffynnon! Fyddai hynny'n ddim mwy o ryfeddod na'r stori chwaraeon a fyddai'n hawlio'r sylw ynddo, sef buddugoliaeth nodedig Cymru o 34 i 21 yn erbyn Lloegr ar 15 Ebrill, y sgôr ucha yn eu herbyn. Caiff ei chofio fel **gêm Jarrett**, ac roedd yn un o ddwy gêm a ddisgrifiwyd felly'r tymor hwnnw.

Heb fuddugoliaeth yn yr un o'i phedair gêm, gan gynnwys colli i Awstralia am y tro cyntaf, roedd Cymru'n wynebu colli pob un gêm mewn tymor am y tro cyntaf ers 1937, serch ennill y Bencampwriaeth yn y tri thymor cynt. Bu dau gapten. Gwisgwyd y crys coch gan 27 o chwaraewyr. Enillodd 14 eu cap cyntaf, yn eu plith Gareth Edwards, Barry John, Gerald Davies a Delme Thomas. Heb yn wybod iddynt eu hunain roedd y 'Big Five', fel y gelwid y dewiswyr, wedi dechrau gosod seiliau oes aur y 70au (a llwyddiant Llewod 1971).

Cap newydd ola'r tymor hwnnw oedd **Keith Jarrett**, 18 oed, a ddewiswyd yn gefnwr. Dim ond llond dwrn o gemau yr oedd o wedi'u chwarae dros Gasnewydd ers gadael yr ysgol adeg y Nadolig, a'r rheini fel canolwr.

Sgoriodd Jarrett 19 pwynt, a oedd ar y pryd yn gydradd â'r nifer uchaf mewn gêm ryngwladol (cefnwr arall i Gymru, Jack Bancroft, oedd y llall i gyflawni hyn yn 1910). Ei gais oedd y cyntaf gan gefnwr i Gymru ers 1934. Ac am gais cofiadwy! Enillodd Lloegr y bêl ar eu llinell 25. Ciciodd y canolwr McFadyean hi tuag at yr ystlys. Adlamodd y bêl yn berffaith i ddwylo Jarrett ar linell 10 Cymru. Gwibiodd i lawr yr ystlys chwith. Aeth heibio asgellwr de Lloegr yn hawdd. A throsodd ag ef yn y gornel heb i neb ei gyffwrdd. Yna, ciciodd y trosiad.

Y gogleddwr Dewi Bebb, yn yr olaf o'i 34 gêm dros Gymru, Gerald Davies (2) a Dai Morris sgoriodd y ceisiau eraill. Ciciodd Jarrett bum trosiad a dwy gôl gosb, a bu gôl adlam i Billy Raybould.




***Keith Jarrett ar glawr Rugby World***

Y mis Tachwedd cynt roedd Jarrett yn nhîm Ysgol Mynwy a gurodd Goleg Llanymddyfri, 13–9. Sgoriodd ddau gais. Cymaint oedd ei ddylanwad, yn enwedig yn yr ail hanner, fel yr ysgrifennodd Carwyn James yng nghylchgrawn y coleg, 'We shall remember it as Jarrett's game'. Gwnaeth argraff hefyd ar Cliff Jones, cadeirydd y dewiswyr, a oedd yn bresennol gan bod ei fab yn un o ganolwyr tîm y Coleg.

Gêm Jarrett oedd y gêm ryngwladol gyntaf i mi fod ynddi. Ac fe sgoriodd Jarrett ei gais yn y gornel lle safai Nhad a minnau!

***Geraint Wyn Parry***